# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 9 Tachwedd 2023

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
**Owain Roberts**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6388
SeneddCyllid@senedd.cymru

---

## Cofrestru (09.00-09.15)

## Rhag-gyfarfod Preifat (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papurau i'w nodi

(09.30) (Tudalennau 1 - 6)

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 11 Hydref a 18 Hydref.

**2.1 PTN 1 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Adolygiad Annibynnol o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi - 18 Hydref 2023**

(Tudalennau 7 - 10)

**2.2 PTN 2 - Llythyr gan Anabledd Cymru: Cymorth ariannol penodol i bobl anabl yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 - 19 Hydref 2023**

(Tudalennau 11 - 13)

**2.3 PTN 3 - Llythyr gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Cynllun Pensiwn yr Aelodau - 23 Hydref 2023**

(Tudalennau 14 - 15)

**2.4 PTN 4 - Gwybodaeth ychwanegol gan Gomisiwn y Senedd mewn perthynas â Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) - 31 Hydref 2023**

(Tudalennau 16 - 18)

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

2.5 **PTN 5 – Llythyr gan Archwilio Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio: Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) – 3 Tachwedd 2023**

(Tudalennau 19 – 21)

2.6 **PTN 6 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) – 3 Tachwedd 2023**

(Tudalennau 22 – 23)

## 3 Archwilio Cymru – Craffu ar Amcangyfrif 2024-25 a'r Adroddiad Interim 2023-24: Sesiwn dystiolaeth

(09.30-10.30) (Tudalennau 24 – 143)

Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru

Kathryn Chamberlain, Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

Kevin Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol

Ann-Marie Harkin, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-18-23 P1 – Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2025

FIN(6)-18-23 P2 – Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2025

FIN(6)-18-22 P3 – Adroddiad Interim – Asesiad o gynnydd a wnaed o'i gymharu â'n Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023-24 yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill hyd 30 Medi 2023

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

(10.30)

## 5 Archwilio Cymru – Craffu ar Amcangyfrif 2024-25 a'r Adroddiad Interim 2023-24: Trafod y dystiolaeth

(10.30-10.45)

## 6 Protocol Proses y Gyllideb

(10.45-11.15) (Tudalennau 144 - 152)

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-18-23 P4 - Diweddariad ar newidiadau i Brotocol Proses y Gyllideb

## 7 Sefydlwyd Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid: Diweddariad

(11.15-11.30) (Tudalennau 153 - 154)

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-18-23 P5 - Sefydlwyd Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 18 Hydref 2023

Amser: 09.30 - 12.05

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/13507

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS |
| Tystion: | Michelle Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Chris Vinestock, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Katrin Shaw, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Mick Antoniw AS, Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad<br>Emma Alexander, Llywodraeth Cymru<br>Will Whiteley, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br><br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br><br>Martin Jennings (Ymchwilydd) |

## Cofrestru (09.00-09.15)

## Rhag-gyfarfod Preifat (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Datganodd Mike Hedges AS mai ef yw Cadeirydd Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS).

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 PTN 1 - Llythyr gan Gomisiwn y Senedd: Rhagor o wybodaeth yn dilyn sesiwn ar y gyllideb a gynhaliodd Comisiwn y Senedd ar 5 - 10 Hydref 2023

### 2.2 PTN 2 - Llythyr gan yr Undeb PCS: Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2024-25 - 11 Hydref 2023

### 2.3 PTN 3 - Llythyr gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys: Datganiad Hydref Llywodraeth y DU - 11 Hydref 2023

## 3 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, a'r Amcangyfrif ar gyfer 2024-25: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2022-23, a'r Amcangyfrif ar gyfer 2024-25 gan Michelle Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; Chris Vinestock, Prif

Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Gwella; a Katrin Shaw, Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau.

## Egwyl (10.30-10.45)

## Y Cyhoedd

## 4 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Sesiwn dystiolaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) gan Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad; Will Whiteley, Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwygio'r Senedd; ac Emma Alexander, Pennaeth Cyflawni ar gyfer Diwygio'r Senedd.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, a'r Amcangyfrif ar gyfer 2024-25: Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 8 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2024-25: Trafod yr adroddiad drafft

8.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar Graffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2024-25 a chytunodd arno.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a fideogynhadledd ar Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 11 Hydref 2023

Amser: 09.30 - 11.33

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/13799

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Alun Davies AS (yn lle Rhianon Passmore AS) |
| Tystion: | Ken Skates AS, Comisiynydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Kate Innes, Prif Swyddog Cyllid<br>Alun Davidson, Clerc, Tîm Newid Cyfansoddiadol / Strategaeth Busnes Seneddol<br>Dr Elizabeth Haywood, Cadeirydd, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd<br>Daniel Hurford, Clerc, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd |
| Staff y Pwyllgor: | Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br>Yr Athro Ailsa Henderson (Cynghorwr Arbenigol) |

## Cofrestru (09.00-09.15)

## Rhag-gyfarfod Preifat (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS.

1.3 Roedd Alun Davies AS yn bresennol fel dirprwy yn lle Rhianon Passmore AS.

1.4 Datganodd Mike Hedges AS ei fod yn Ymddiriedolwr ar Fwrdd Pensiynau Aelodau'r Senedd.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 PTN 1 - Llythyr gan Archwilio Cymru: Rhagor o wybodaeth yn dilyn sesiwn Archwilio Cymru ar 20 Medi - 2 Hydref 2023

### 2.2 PTN 2 - Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) – Gwelliannau Cyfnod 3 y Llywodraeth - 2 Hydref 2023

## 3 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Sesiwn dystiolaeth gyda Chomisiwn y Senedd

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) gan Ken Skates AS, Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu; Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd; a Kate Innes, Prif Swyddog Cyllid.

3.2 Cytunodd Comisiwn y Senedd i ddarparu nodyn ar y canlynol:

- Amcangyfrif o gostau teithio a llety'r Aelodau, yn benodol, pam na wnaeth y Comisiwn fodelu'r costau presennol yn y meysydd hyn i gynhyrchu ystod o amcangyfrifon.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitemau 5 a 7

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Sesiwn dystiolaeth gyda Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) gan Dr Elizabeth Haywood, Cadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd; a Daniel Hurford, Clerc, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd.

## 7 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: RE/353/2023

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

18 Hydref 2023

Annwyl Peredur,

**Adolygiad Annibynnol o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi**

Diolch am eich llythyr yn gofyn am y newyddion diweddaraf ar nifer o faterion sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad terfynol yr Adolygiad Annibynnol o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, a gyhoeddwyd ar 6 Gorffennaf. Isod, mae ymateb i'r materion a amlygwyd yn eich llythyr.

Roedd yr adroddiad yn nodi bod lefel y gwaith ymgysylltu a wnaed â rhanddeiliaid wrth wneud yr ymchwil wedi bod yn isel. Rhybuddiwyd nad yw'r data am y cyfweliadau a'r arolwg a gyflwynwyd yn yr adroddiad yn cynrychioli grwpiau rhanddeiliaid yn llawn ac y dylid bod yn ofalus wrth ddod i unrhyw gasgliadau yn seiliedig ar y data a gyflwynwyd.

Er nad oedd nifer y rhanddeiliaid a gymerodd ran yn yr adolygiad mor uchel ag yr oeddem wedi'i obeithio, roedd yr adolygiad wedi casglu safbwyntiau gan ystod eang o sefydliadau a oedd yn cynrychioli amrywiaeth o grwpiau rhanddeiliaid, gan gynnwys cymdeithasau masnach, sefydliadau amgylcheddol, rheoleiddwyr, swyddogion y llywodraeth a pholisi, casglwyr masnachol, gweithredwyr safleoedd tirlenwi, a chynhyrchwyr gwastraff. Rwy'n fodlon bod y tîm adolygu wedi gwneud pob ymdrech yn yr adolygiad i ymgysylltu â chymaint o randdeiliaid â phosibl, a bod canfyddiadau'r adolygiad, er nad ydynt o reidrwydd yn gwbl gynrychioliadol o'r safbwyntiau, yn sylfaen ddigonol i gefnogi ein dealltwriaeth o effaith cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar ymddygiadau hyd yma ac i lywio'r broses o ystyried polisi yn y maes hwn yn y dyfodol.

Amlygodd yr adroddiad eto yr heriau o ran nodi effaith benodol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, sy'n golygu ei bod yn anodd priodoli effaith uniongyrchol y dreth hon.

Er i'r adolygiad nodi'r heriau o ran ynysu effaith y Dreth Gwarediadau Tirlenwi fel ysgogiad polisi unigol, canfu fod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi'i halinio'n dda â pholisïau a blaenoriaethau amgylcheddol eraill Llywodraeth Cymru. Ymhellach, canfu'r adolygiad fod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn rhan hanfodol o becyn o fesurau polisi sydd, gyda'i gilydd, yn symud gwastraff i ffwrdd o safleoedd tirlenwi ac i fyny'r hierarchiaeth wastraff (h.y. tuag

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

at atal, ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer). Fy mlaenoriaeth yn awr yw ystyried sut y gall polisi'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi barhau i ategu mentrau polisi newydd a phresennol yn y ffordd orau er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gyfrannu at gyflawni ein hamcanion amgylcheddol.

Nid oedd yn bosibl ateb sawl cwestiwn ymchwil oherwydd diffyg data.

Rydym yn cydnabod bod bylchau yn y data ar gyfer rhai meysydd megis troseddau gwastraff a gwarediadau anawdurdodedig. Oherwydd eu natur, mae'n anodd mesur meysydd o'r fath. Fodd bynnag, mae fy swyddogion yn gweithio gyda phartneriaid yn Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r data sydd gennym. Yn ddiweddar, mae ACC wedi dechrau cyhoeddi data ychwanegol yn ei fwletinau ystadegol er mwyn helpu i ddadansoddi a deall y sector gwastraff. Mae fy swyddogion hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr polisi ar draws Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o weithredu gwasanaeth olrhain gwastraff digidol a fydd o gymorth i'r gwaith o lenwi rhai o'r bylchau data sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Mae'r bwlch rhwng cyfradd is a chyfradd safonol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi cyfrannu at gamddosbarthu gwastraff yn fwriadol.

Roedd canfyddiadau'r adolygiad yn atgyfnerthu ein rhagdybiaethau blaenorol bod y bwlch cynyddol rhwng y gyfradd is a'r gyfradd safonol yn rhoi cymhelliant ariannol clir i wastraff gael ei gamddisgrifio. Mae deall sut mae camddisgrifio yn digwydd yn allweddol i benderfynu ar y ffordd orau o fynd i'r afael ag ef. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda phartneriaid yn ACC ac CNC i gynnal prosiect i gael gwell dealltwriaeth o gamddisgrifio, lle mae'n digwydd yn y broses, a'r ysgogwyr a chymhellion allweddol i bobl gamddisgrifio gwastraff. Bydd y prosiect wedyn yn ystyried pa gamau sydd eu hangen i fynd i'r afael ag ef.

Mae cyfradd is y Dreth Gwarediadau Tirlenwi hefyd wedi bod yn anghymhelliad rhag defnyddio opsiynau trin gwastraff amgen a chynaliadwy sy'n ddrutach (o gymharu â thirlenwi).

Rydym yn cydnabod, mewn rhai achosion, y gall fod yn wir bod cael gwared ar rai deunyddiau mewn safleoedd tirlenwi yn rhatach nag opsiynau trin gwastraff eraill. Gall ffactorau eraill, ar wahân i gost, hefyd effeithio ar y ffordd y caiff gwastraff ei waredu, gan gynnwys agosrwydd a mynediad at gyfleusterau trin amgen. Gall rhai deunyddiau sy'n gymwys ar gyfer cyfradd is y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, ar ôl eu gwaredu, gael eu hailddefnyddio hefyd i adfer safleoedd tirlenwi.

Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddeall yn fanylach y ffactorau a allai gyfyngu ar reoli gwastraff yn fwy cynaliadwy ac ystyried pa gamau y gall fod angen i ni eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain.

Ystyriwyd bod y gyfradd ar gyfer gwarediadau anawdurdodedig (150 y cant o'r gyfradd safonol) yn synhwyrol ond codwyd materion ynghylch ei heffeithiolrwydd posibl o ran atal troseddau gwastraff oherwydd diffyg amlygrwydd a gwaith gorfodi.

Mae codi treth ar warediadau anawdurdodedig yn faes trethiant cymharol newydd a digynsail. Mae ACC wedi sefydlu tîm gwarediadau anawdurdodedig, sydd mewn 'cyfnod profi a dysgu' ar hyn o bryd. Mae'n bosibl bod hyn yn gyfrifol am y diffyg amlygrwydd canfyddedig a gofnodwyd yn yr adolygiad. Mae ACC wedi codi treth ar sawl achos o warediadau anawdurdodedig, ac mae un achos yn destun apêl i'r Tribiwnlys Trethi ar hyn o bryd. Mae ACC hefyd yn gweithio'n agos gydag CNC i wella dulliau mesur gwastraff ac atgyfeiriadau achosion yn y dyfodol. Wrth i'r gwaith barhau, ac wrth i nifer yr achosion lle

codir treth gynyddu, mae ACC yn disgwyl i ragor o wybodaeth gael ei rhyddhau i'r cyhoedd, a fydd yn cefnogi mwy o amlygrwydd wrth symud ymlaen.

Roedd y gwelliannau a awgrymwyd yn cynnwys cyflwyno cyfraddau treth lluosog; newid cyfraddau yn seiliedig ar y driniaeth o ddeunyddiau a ddymunir; ysgafnhau beichiau gweinyddol ar weithredwyr safleoedd tirlenwi; a neilltuo mwy o adnoddau (e.e. refeniw treth) i wella'r broses o reoleiddio'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

*Cyfraddau treth*

Ar hyn o bryd, mae diffyg data cadarn yn archwilio'r risgiau a manteision o gyflwyno cyfraddau treth newydd a byddai angen gwneud mwy o waith i ddeall y rhain yn fanylach. Er bod yr adolygiad wedi canfod nad yw cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi'n dylanwadu ar lifoedd gwastraff trawsffiniol, dim ond yn y cyd-destun presennol y gellir ystyried y canfyddiad hwn, lle mae cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cyd-fynd â chyfraddau treth dirlenwi'r DU. Mae sampl gymharol fach y rhanddeiliaid a gymerodd ran a oedd yn sail i'r casgliadau hyn hefyd yn ei gwneud hi'n anodd pennu'r awydd posibl am newidiadau o'r fath ar draws y sector gwastraff ehangach. Er nad wyf am ddiystyru gwneud unrhyw newidiadau i gyfraddau treth yn y dyfodol, mae angen gwneud gwaith dadansoddi ymhellach er mwyn pennu risgiau a manteision unrhyw newid o'r fath, yn ogystal â nodi'r lefelau y gallai busnesau eu goddef. Byddwn yn parhau i weithio gyda chydweithwyr ar draws gwledydd eraill y DU i ddeall sut y gallem gasglu'r wybodaeth ofynnol a phenderfynu pa gamau, os o gwbl, y gellir eu cymryd dros y tymor hwy.

*Cyfraddau yn seiliedig ar y driniaeth o ddeunyddiau a ddymunir*

Roedd yr adolygiad yn cynnwys rhai canfyddiadau diddorol am y mathau o ddeunyddiau sy'n cael eu rhoi mewn safleoedd tirlenwi a nododd fod sawl ffrwd wastraff lle nad oedd cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn atal defnydd o safleoedd tirlenwi. Felly, gallwn ystyried a ddylid symud rhai deunyddiau i fyny'r hierarchiaeth wastraff i annog eu hadfer a'u hailddefnyddio, ac a ddylid ailystyried cyfraddau deunyddiau eraill – er enghraifft, rhai deunyddiau peryglus – er mwyn annog eu gwaredu'n ddiogel.

Mae canfyddiadau'r adolygiad yn hyn o beth yn rhoi cyfle i ni gymryd camau wedi'u targedu fwy i ddeall barn y sector gwastraff yn fwy manwl ac ystyried pa gamau priodol y dylid eu cymryd. Rwy'n ymwybodol bod Trysorlys EF hefyd yn cynnal ystyriaethau tebyg o ran y dreth dirlenwi a bydd fy swyddogion yn ceisio i weithio gyda swyddogion Trysorlys EF i ystyried sut y gallai ein gwaith alinio â hyn wrth symud ymlaen.

*Ysgafnhau beichiau gweinyddol ar weithredwyr safleoedd tirlenwi*

Dywedodd nifer fach o weithredwyr safleoedd tirlenwi a gymerodd ran yn yr adolygiad fod baich gweinyddol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru yn uwch na'r dreth dirlenwi yn Lloegr. Efallai mai'r rheswm am hyn yw bod ACC wedi cyflwyno ffurflen Treth Gwarediadau Tirlenwi ddigidol fanylach ac yn cynnal adolygiadau mwy trylwyr a rheolaidd o rai achosion o gymeradwyo o dan y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, yn enwedig o ran gostyngiadau dŵr.

Nod ffurflen dreth ddigidol newydd ACC yw ei gwneud yn haws i drethdalwyr sicrhau bod pethau'n iawn y tro cyntaf, drwy ofyn am ragor o fanylion o'r cychwyn cyntaf. Roedd ACC wedi cynnwys gweithredwyr safleoedd tirlenwi yn y gwaith o gynllunio'r ffurflen.

Mae CThEF ac ACC wedi nodi gostyngiadau dŵr fel maes o risg arbennig ar gyfer troseddau gwastraff. Mae ACC wedi sefydlu mesurau gwirio mwy trwyadl ac adolygiadau blynyddol o bob gostyngiad o'r cychwyn cyntaf, i sicrhau nad oedd y drefn yn cael ei

chamddefnyddio, ac mae’n ystyried bod y dull hwn wedi lleihau risgiau sy’n gysylltiedig â threth. Ers hynny, mae ACC wedi rhannu’r broses hon gydag CThEF a Chyllid yr Alban, a bydd y ddau ohonynt yn mabwysiadu dulliau tebyg yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a’r Alban.

Mae dau Reolwr Cysylltiadau Cwsmeriaid penodedig gan ACC hefyd, sy’n cefnogi gweithredwyr safleoedd tirlenwi ar geisiadau am ryddhad, barn ar dreth, ymholiadau cyffredinol, a ffeilio ffurflenni treth. Mae'r ymagwedd bersonol, bwrpasol hon yn cynorthwyo gweithredwyr safleoedd tirlenwi i reoli eu cyfrifoldebau ynghylch y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol rhwng ACC a gweithredwyr safleoedd tirlenwi.

*Neilltuo mwy o adnoddau (e.e. refeniw treth) i wella'r broses o reoleiddio’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi*

Bydd ein dull o weinyddu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn parhau i fod yn ddull sy'n sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, a'n trethi datganoledig eraill. Ategir ein dull gan ein hegwyddorion treth, yn enwedig wrth gynllunio trethi i fod yn glir ac yn sefydlog. Hefyd, bod ein dull yn syml a theg, yn unol â’r ffordd Gymreig o weinyddu trethi.

Byddwn yn parhau i wella ein dealltwriaeth o faterion allweddol mewn perthynas â rheoli a gwaredu gwastraff drwy gryfhau ein cydberthnasau ar draws Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a chyda’n partneriaid allweddol yn ACC ac CNC. Bydd hyn yn cefnogi datblygiad parhaus y Dreth Gwarediadau Tirlenwi i sicrhau ei bod yn parhau i gyfrannu at y gwaith o gyflawni ein hamcan o Gymru ddiwastraff.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Disability Wales
Anabledd Cymru

Dear Finance Committee,

We are writing to you to express the importance of including specific financial support for disabled people in the upcoming 2024-2025 budget.

We have all felt the effects of the cost-of-living crisis, but we have not all experienced it equally. We have found that there are disabled people across Wales, forced to live in awful circumstances due to the twin problems of poverty and the cost-of-living crisis. A fifth of the population of Wales is disabled[1] and households containing at least one disabled person is more likely to be living in poverty,[2] disabled people are more likely to be economically inactive or if in work, that work is more likely to be insecure and low wage.[3] Poverty has long been a problem for disabled people living in Wales, but the rising cost-of-living is forcing people into worse and worse circumstances.

The 2023-2024 budget did not provide specific support for disabled people during the crisis and our findings from our report "Barely Surviving the impact of the cost-of-living crisis on disabled people" displays some of the consequences. We found that the financial support available was short-sighted, the cost-of-living payments supporting people to pay one month of bills, but nothing beyond. Disabled people often have more essential costs than non-disabled people, this extra cost of disability has not been accounted for, beyond the support already available.

The consequences are severe. Disabled people reported only being able to eat one meal a day, having to let go of support workers or stop going to vital therapies because of cost, being unable to run access equipment due to costs, in some cases losing their lives.

These have been difficult years to be a disabled person in Wales. We have been living through a mass-disabling coronavirus pandemic, in

---

[1] Office of National Statistics, Census 2021, "Disability, England and Wales: Census 2021", 19th January 2023, <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/disabilityenglandandwales/census2021#how-disability-varied-across-england-and-wales>

[2] Joseph Roundtree Foundation, "UK Poverty 2023 – The essential guide to understanding poverty in the UK", 20th January (2023), p65, <https://www.jrf. org.uk/sites/default/files/jrf/uk_poverty_2023_-_the_essential_guide_to_understanding_poverty_ in_the_uk_0_0.pdf>

[3] Department for Work and Pensions, "Employment of disabled people 2022", UK Government, 26th January (2023), https://www.gov.uk/government/ statistics/the-employment-of-disabledpeople-2022/employment-of-disabled-people2022#labour-market-statu

which disabled people have been disproportionately harmed. Disabled people have disproportionately been impacted by over a decade of austerity policies and with severe changes to their benefit entitlement from the UK Government, this period of financial uncertainty and continued poverty does not look likely to change.

We are calling for the Budget to include a series of recommendations and for certain questions to be asked of what we need and what is missing.

- The Welsh Government, health services and local authorities in Wales should provide specific support for the running and maintenance of disability related equipment, to ensure that all disabled people are not financially impacted by their need to use certain equipment.
- Welsh Government to urgently review its policy on social care charges, including whether the disregards for disability related expenditure are adequately protecting disabled people on low incomes with high costs.
- Urgent action to recognise and tackle mental health issues amongst disabled people, including pathways to accessing appropriate mental health support whether from social care, other areas of the health service and/or through peer support, such as from disabled people's organisations.
- Food subsidies should be considered to reduce the cost of food in shops. To supplement this, the Welsh Government and Local Authorities should provide support to and nurture the creation of community food schemes. These schemes should include accommodation for dietary requirements and include options for access requirements.
- Public transport, such as buses and trains, should be taken under public ownership to be delivered as a public service, including measures such as reduced ticket prices with the eventual goal to make public transport in Wales free.
- Provision of resources and capacity building measures to ensure the establishment and sustainability of at least one Disabled People's Organisation in every local authority, to support

coproduction of policies and services with public bodies, including peer support schemes for disabled people

- Commitment from the Welsh Government to prioritise tackling the extra cost of disability

For more information, please contact [redacted]. You can find our full report here: https://www.disabilitywales.org/wp-content/uploads/2023/07/Barely-Surviving-cost-of-living-report.pdf

Kind regards,

Megan Thomas

Policy and Research Officer

Disability Wales

Eitem 2.3

**Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**
—
**Independent Remuneration Board of the Senedd**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Taliadau@senedd.cymru
bwrddtaliadau.cymru
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Remuneration@senedd.wales
remunerationboard.wales
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

23 Hydref 2023

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Annwyl Peredur

Diolch am y cyfle i gyfrannu'n ddiweddar at waith craffu'r Pwyllgor Cyllid ar amcangyfrif o gostau Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

Yn ystod y sesiwn graffu, gofynnwyd imi am yr effaith bosibl ar Gynllun Pensiwn yr Aelodau o gael 36 o Aelodau newydd o'r Senedd, gan gyfeirio at effaith debygol hynny ar broffil oedran aelodau'r Cynllun. Sylwais fod Actiwari'r Cynllun wedi cynnal prisiad o'r Cynllun yn ddiweddar, ac y byddai'r Bwrdd Taliadau yn cyfarfod â'r Actiwari ar y diwrnod ar ôl fy sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor. Addewais godi'r mater hwn gydag Actiwari'r Cynllun.

Diben y llythyr hwn yw hysbysu'r Pwyllgor Cyllid bod y mater wedi'i godi gydag Actiwari'r Cynllun. Er gwybodaeth, nododd yr Actiwari ei farn y gallai aelodaeth iau – gyda bod popeth arall yn gyfartal – olygu y byddai cyfraniadau'r Comisiwn i'r Cynllun yn gostwng, gan fod eu buddion yn daladwy yn ddiweddarach na buddion aelodau hŷn, ac felly cânt eu hariannu am gyfnod hwy. Ar yr un pryd, mae prisiad yr Actiwari yn ei gwneud yn glir bod lefel ariannu a chostau parhaus y Cynllun yn sensitif i farchnadoedd buddsoddi a chwyddiant. Bydd effaith debygol aelodaeth iau yn cael ei hystyried ym mhrisiadau'r Cynllun yn y dyfodol ochr yn ochr ag ystyriaethau eraill o'r fath, os caiff aelodaeth y Senedd ei chynyddu drwy ddeddfwriaeth. Cynhelir y prisiad tair blynedd nesaf ar 1 Ebrill 2026 gydag unrhyw newidiadau posibl yng nghyfraniadau'r Comisiwn yn effeithio ar gyllidebau 2027-28.

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

Yn gywir

**Dr Elizabeth Haywood**
**Cadeirydd, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. | We welcome correspondence in Welsh or English.*

Eitem 2.4

Senedd Cymru
Comisiwn y Senedd
—
Welsh Parliament
Senedd Commission

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

31 Hydref 2023

Annwyl Peredur

Diolch am y cyfle i gyfrannu'n ddiweddar at waith craffu'r Pwyllgor Cyllid ar amcangyfrif o gostau Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

Yn dilyn ein hymddangosiad gerbron eich Pwyllgor ar 11 Hydref, rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth i chi a fydd yn ategu'r atebion a roddwyd gennym yn ystod y cyfarfod. Mae'r wybodaeth dan sylw wedi'i nodi yn yr atodiad.

Mae'r Comisiwn bob amser yn ceisio gweithredu mewn ffordd agored, dryloyw a chlir. Felly, os oes unrhyw beth arall y gallwn ei roi ichi i gynorthwyo trafodaethau'r Pwyllgor, mae croeso ichi roi gwybod imi.

Yn gywir

**Ken Skates AS**

copi at Gomisiynwyr y Senedd, Manon Antoniazzi

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

## Nodyn atodol i'r Pwyllgor Cyllid - Diwygio'r Senedd ar broses y Gyllideb

***Pam na wnaeth y Comisiwn fodelu'r costau presennol yn y meysydd hyn i gynhyrchu ystod o amcangyfrifon ar gyfer treuliau teithio a llety yr Aelodau.***

Paratowyd costau ar bob llinell gyllidebol yn seiliedig ar y ddau senario gwahanol o newid 'lleiaf' neu 'fwyaf', fel y nodir yn Atodiad 5 y Memorandwm Esboniadol i'r Bil.

Mae'r prif wahaniaethau rhwng y ddau senario wedi'u nodi mewn perthynas â'r canlynol:

- nifer y Deiliaid Swyddi a grwpiau plaid a ragdybiwyd yn y costau;
- y cynnydd yn nifer y Pwyllgorau a ragdybiwyd;
- rhagdybiaethau gwahanol ynghylch gweithgarwch busnes – cyfarfodydd llawn ac wythnosau eistedd ychwanegol.

Roedd yr amcangyfrifon cost yn ymwneud â chostau Aelodau yn seiliedig ar ddarpariaethau Penderfyniad 2022-23.

Caiff Aelodau hawlio ad-daliad o gostau sy'n ymwneud â theithio ar fusnes y Senedd (teithio, cynhaliaeth a llety), a hynny'n unol â'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau. Mae'r rhain yn talu costau teithio o fewn Cymru a'r DU a theithio rhyngwladol.

Mae costau teithio yn amrywio yn ôl dewis personol yr Aelodau ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau. Heb ddealltwriaeth fanwl o sut y gall Aelodau'r Seithfed Senedd drefnu eu gwaith etholaethol mewn etholaeth aml-aelod, a heb achub y blaen ar benderfyniadau sydd eto i'w gwneud, nid oedd modd gwneud dadansoddiad manwl o gostau yn amcangyfrif nifer y nosweithiau i ffwrdd, nifer yr ymweliadau, hyd ymweliadau, dull teithio, ac o ble i ble ac ati. Felly gwnaed rhagdybiaeth resymol y byddai'r patrwm yn debyg i'r un presennol.

Mewn unrhyw flwyddyn benodol, caiff y gyllideb gyfredol ei phennu ar sail data hawliadau hanesyddol. Yr arfer cyllidebol gorau yw allosod yn seiliedig ar wybodaeth hysbys (y gyllideb gyfredol) fesul amrywiad (nifer yr Aelodau newydd) a chyfrifo'r amcangyfrifon cost yn seiliedig ar gost gyfartalog fesul person. Drwy gyfartaleddu, fe wnaeth swyddogion gael gwared ar yr effaith cost uchaf ac isaf i lunio amcangyfrif cost resymol fesul Aelod.

Ni fyddai unrhyw ystod o opsiynau amcangyfrifedig (senarios newid mwyaf neu leiaf) wedi darparu amcangyfrif cost mwy cywir at y diben hwn gan y byddent wedi cyflwyno rhagdybiaethau pellach ac ansicrwydd yn y cyfrifiad ei hun.

Mewn perthynas â chostau llety, y rhagdybiaeth greiddiol i'r amcangyfrifon cost hyn yw bod yr ardaloedd mewnol, allanol a chanolradd yn aros fel y maent ym Mhenderfyniad 2022-23.

Mae'r Penderfyniad yn darparu y gall rhai Aelodau gael ad-daliad am gostau sy'n ymwneud â llety preswyl neu aros dros nos yn ardal Caerdydd, a hynny mewn cysylltiad â chyflawni eu dyletswyddau fel Aelod o'r Senedd. Mae'r symiau y gallent eu hawlio yn dibynnu ar ble mae eu prif gartref yng Nghymru. Yn seiliedig ar Benderfyniad 2022-23, gall y rheini sydd yn ardaloedd allanol Cymru (Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru) gael ad-daliad am y gost o rentu eiddo wedi'i ddodrefnu hyd at £10,260 o gostau rhentu, a chostau domestig cysylltiedig eraill. Gall y rheini yn yr "ardal ganolradd" (etholaethau Gŵyr, Castell-nedd, Dwyrain Abertawe a Gorllewin Abertawe) ofyn am ad-daliad o £7,220. Ni all y rheini yn yr "ardal fewnol" (pob etholaeth arall, gan gynnwys Dwyrain De Cymru a Chanol De Cymru, a rhannau o Orllewin De Cymru) hawlio unrhyw gostau gwesty yng Nghaerdydd, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

Adeg paratoi'r amcangyfrifon, nid oedd yr etholaethau sydd i ddod yn hysbys. Gwnaed rhagdybiaeth resymol y byddai cynnydd o 15 Aelod yn byw yn yr ardal allanol, cynnydd o bum Aelod yn yr ardal ganolradd llai o faint, a chynnydd o 16 Aelod yn byw yn yr ardal fewnol.

Roedd y costau a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn. Nodwn fod y Memorandwm Esboniadol yn cyflwyno'r costau hyn fel ar fodel gwahanol o gyfartaledd o 36 o gostau ardal ganolradd o £7,400.

Yr un swm o oddeutu £266,000 yw'r canlyniad. Ni fyddai unrhyw ystod o senarios newid mwyaf neu leiaf wedi darparu amcangyfrif cost mwy cywir at y diben hwn. Rydym felly yn parhau i fod yn sicr mai'r rhain yw'r amcangyfrifon gorau rhesymol o'r costau penodol hyn. Yn yr un modd â chyfrifo'r amcangyfrifon costau teithio, ni archwiliwyd opsiynau pellach ar yr un sail bod mwy o ragdybiaethau yn cyflwyno mwy o ansicrwydd wrth gyfrifo'r costau, heb ddarparu budd materol ychwanegol.

Eitem 2.5

Archwilio Cymru
Audit Wales

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

David Rees AS
Cadeirydd Pwyllgor Biliau Diwygio'r Sened
Senedd Cymru/Welsh Parliament
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1SN

**Reference:** AC391/caf
**Date issued:** 3 Tachwedd 2023

Annwyl David

## Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Craffu Cyfnod 1

Am y rhesymau yr ymdriniwyd â hwy eisoes yn fy ngohebiaeth flaenorol ar bwnc diwygio'r Senedd, y cyfeirir atynt ym Memorandwm Esboniadol y Bil (felly nid wyf yn mynd i'w hailadrodd yma), mae'n dda gennyf weld cynnydd gyda'r gwaith sy'n cael ei wneud i gynyddu capasiti'r Senedd.

Fodd bynnag, nid wyf wedi gwneud sylwadau'n flaenorol ar y dychweliad arfaethedig at gylch etholiadol pedair blynedd. Nid wyf yn anghytuno â manteision datganedig y rhan honno o'r Bil, ond rwy'n meddwl y dylwn grybwyll rhai goblygiadau o ran costau sy'n codi nad ymdrinnir â hwy yn y Memorandwm Esboniadol, ynghyd â datrysiad posibl.

Mae dychwelyd at gylch etholiadol pedair blynedd yn dwyn effeithiau canlyniadol ar fy nyletswyddau i gynnal archwiliadau datblygu cynaliadwy a nodir yn adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n ofynnol dan yr adran honno fy mod yn cynnal o leiaf un archwiliad o bennu a mynd ar drywydd amcanion llesiant gan bob "corff cyhoeddus" (fel y'u diffinnir gan Ddeddf 2015) ym mhob cylch etholiadol. (Diffinnir yr union gyfnod trwy gyfeirio at etholiadau cyffredinol arferol dan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac mae 48 o gyrff wedi'u dynodi'n gyrff cyhoeddus dan Ddeddf 2015 ar hyn o bryd, er bod gan Lywodraeth Cymru gynigion i ddynodi neu greu naw corff arall o'r fath, a fyddai'n cynyddu'r effeithiau canlyniadol.)

Felly, yn gyffredinol, effaith ganlyniadol allweddol dychwelyd at gylch pedair blynedd o ran fy swyddogaethau yw cynnydd o 25% ym mynychder archwiliadau ac adroddiadau datblygu cynaliadwy, a fydd bron yn sicr yn arwain at gynnydd tebyg yng nghost gwaith o'r fath. Mae'n anodd modelu'r union effaith, gan bod peth gwaith a wneir i gyflawni'r ddyletswydd dan adran 15 yn goleuo gwaith i gyflawni swyddogaethau eraill hefyd. Fodd bynnag, gan mai oddeutu £1.8 miliwn yw cost bresennol gwaith o'r fath i ateb y gofynion statudol lleiaf ar gyfer 48 o gyrff ym mhob cylch etholiadol (yn ôl prisiau cyfredol a chan gydymffurfio â safonau ansawdd cyfredol), gallai cynnydd o'r fath fod yn gyfanswm o tua £435,000 ar y cyfan ym mhob cylch. Wrth reswm, byddai'r cynnydd yn fwy os dynodir cyrff pellach. Mae hwn yn swm gweddol fach, yng nghyd-destun cost amcangyfrifedig y Bil ar y cyfan, ond gan y bydd angen iddo naill ai cael ei dalu gan gyrff unigol fel rhan o'u ffioedd archwilio neu gael ei ddarparu trwy gyflenwad o Gronfa Gyfunol Cymru, rwy'n meddwl y byddai'n ddiofal peidio â chrybwyll yr effaith hon.

Effaith ganlyniadol arall y dylwn i ei chrybwyll, er nad yw honno ynddi ei hun yn effeithio ar gost y Bil, yw bod cynyddu mynychder adroddiadau gorfodol yn y bôn yn rhoi pwysau ychwanegol ar fy rhaglen waith ar y cyfan. Mi fydd hynny rywfaint yn lleihau fy nisgresiwn wrth ddylunio'r rhaglen ehangach honno, y mae llawer ohoni yn cefnogi gwaith y Senedd ei hun.Bydd yn lleihau fy nisgresiwn o ran dylunio'r rhaglen ehangach honno i ryw raddau. O ystyried swm sefydlog o adnoddau i bob pwrpas, mae cynnydd mewn gofynion adrodd gorfodol yn lleihau'r cyfle i mi gynnal archwiliadau dewisol o faterion a allai achosi risgiau mwy i werth am arian.

Dylwn nodi hefyd, yn ogystal â'r effaith ar fy swyddogaethau archwilio datblygu cynaliadwy dan adran 15, bod effeithiau tebyg sy'n gysylltiedig â'r cylch etholiadol ar Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Adran 8 o Ddeddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru bennu a chyhoeddi "amcanion llesiant" chwe mis ar ôl pob etholiad cyffredinol. Felly, bydd pennu amcanion o'r fath yn dod yn weithred fwy mynych ac, eto, mae'n debygol o achosi gwariant ychwanegol. Yn ei Memorandwm Etholiadol ar Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ar y pryd, amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru mai £186,600 (yn ôl prisiau 2016-17) fyddai cost pennu amcanion o'r fath. Mae'n bosibl efallai na fydd ymarferion ailadroddus mor ddwys o ran adnoddau, ond byddai'n dal yn ddoeth i Lywodraeth Cymru a'r Senedd wneud rhywfaint o lwfans am gost ychwanegol..

Mae Adran 11 o Ddeddf 2015 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gynhyrchu "Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol" ym mhob cylch etholiadol, ac mae adran 23 yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gynhyrchu "Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol" ym mhob cylch, er y gall amseriad adroddiad y Comisiynydd gael ei ddiwygio gan Weinidogion Cymru trwy orchymyn. Eto, byddai'n ymddangos y gallai'r cynnydd ym mynychder cynhyrchu'r dogfennau hyn achosi

codiadau tebyg yn y gost. Efallai y byddai o gymorth ystyried a ddylid ymdrin â chodiadau o'r fath yn y Memorandwm Esboniadol.

Wrth gwrs, ni ddylai’r gynffon siglo’r ci, ac mae’r disgwyliad y ceir codiadau yng nghostau gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol o ganlyniad i’r Bil Cyfredol, yn fwy na dim byd arall yn fy marn i, yn tanlinellu’r angen am adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf 2015. Gan nodi cymhlethdod y Ddeddf honno, rwyf eisoes wedi argymell adolygiad o’r fath yn fy adroddiad Felly, beth sy'n wahanol? yn 2020 ac fe ailddatgenais hynny mewn ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2022 ar ddynodi cyrff pellach. Rwy’n casglu y gall fod rhyw waith gwerthuso ôl-ddeddfwriaethol yn yr arfaeth gan Lywodraeth Cymru, ond ni wn a fydd hwnnw’n ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddf 2015 i ymdrin ag effaith y Bil.

Mae Deddf 2015 wedi gwreiddio’r cysyniad a’r arfer o gynnal archwiliadau allanol rheolaidd o’r modd yr ymlynir wrth yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a mynd ar drywydd amcanion llesiant, ond byddai’n ymddangos ei bod yn briodol mynd ati yn awr i fireinio’r model fel bod y gwaith archwilio ac adrodd hwnnw’n gallu bod yn seiliedig ar risg ac felly’n fwy cymesur ac wedi’i symleiddio’n fwy ar y cyfan, ac felly’n osgoi neu liniaru'r costau ychwanegol yr wyf wedi'u disgrifio. Gallai mireinio o’r fath helpu hefyd i adfer a diogelu hyd a lled y disgresiwn sydd gennyf ar y cyfan i ddylunio fy rhaglen waith sydd, ymhlith pethau eraill, o fudd o ran sicrhau annibyniaeth archwilio a chraffu da ar stiwardiaeth ar arian cyhoeddus gan fy swyddf a'r Senedd.

O ystyried eu diddordebau yn fy swyddogaethau a darpariaeth adnoddau, rwy'n copïo'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Pwyllgor Cyllid.Gobeithio bod hynny o gymorth.

Yn gywir



**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
—
Local Government and Housing Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Mick Antoniw AS,
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad,
Llywodraeth Cymru

3 Tachwedd 2023

Annwyl Mick,

**Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

Diolch am ddod i'n cyfarfod ar 26 Hydref mewn perthynas â'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). Cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn am ragor o wybodaeth am rai o'r materion a drafodwyd gennym.

Cofrestru etholiadol heb gais

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan, er mwyn ychwanegu mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer etholwyr ifanc ac etholwyr sy'n agored i niwed, y bydd y gofrestr etholiadol agored yn cael ei gwaredu ar gyfer etholiadau Cymreig. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod darpariaeth i alluogi hyn wedi'i chynnwys yn y Bil ac nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio sut y bydd y gofrestr yn cael ei gwaredu fel arall. Byddem yn ddiolchgar am eglurhad ynghylch pam nad yw'r ddarpariaeth hon wedi'i chynnwys yn y Bil, a beth yw'r amserlenni ar gyfer ei gwaredu.

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch nodi y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Offeryn Statudol o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1953 i waredu'r gofrestr agored ar gyfer etholiadau Cymreig, a chytuno i gadarnhau pa weithdrefn fydd yn cael ei defnyddio i wneud yr is-ddeddfwriaeth.

Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech roi manylion a roddwyd ystyriaeth i'r effaith y gallai gwaredu'r gofrestr agored yng Nghymru ei chael ar fusnesau, elusennau a sefydliadau eraill.

Gwasanaethau i hybu amrywiaeth ymhlith personau sy'n ceisio swydd etholedig

Mae adran 28 yn pennu bod yn rhaid gwneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau i hybu amrywiaeth yn nodweddion gwarchodedig ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol personau

sy'n ceisio cael eu hethol. Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o fanylion am y meini prawf a fydd yn cael eu defnyddio i asesu amgylchiadau economaidd-gymdeithasol person er mwyn bod yn gymwys i gael gwasanaethau o'r fath.

Byddem yn ddiolchgar am ymateb erbyn 16 Tachwedd er mwyn ein helpu i ystyried y Bil.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad a’r Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir

John

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 3

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2025

Hydref 2023

Wedi ei baratoi ar y cyd a'i osod gerbron y Senedd dan Adran 20(1) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

**Dr Kathryn Chamberlain**
Cadeirydd
Archwilio Cymru

**Adrian Crompton**
Archwilydd
Cyffredinol Cymru

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae Adran 20 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru fynd ati ar y cyd i baratoi amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru a gosod yr amcangyfrif hwnnw gerbron y Senedd o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

Yn unol ag Adran 20 y Ddeddf, rhaid i bob amcangyfrif gwmpasu (ymhlith pethau eraill) yr adnoddau y mae ar yr Archwilydd Cyffredinol eu hangen i arfer ei swyddogaethau statudol.

Gall Pwyllgor Cyllid y Senedd wneud unrhyw addasiadau i'r amcangyfrif sy'n briodol yn ei dyb ef, ond ni ellir gwneud unrhyw addasiad oni bai:

- Yr ymgynghorwyd â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru; a
- bod unrhyw sylwadau a wnaed gan y naill neu'r llall wedi cael eu cymryd i ystyriaeth.

Bob blwyddyn rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno cynnig yn y Senedd dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n cynnwys awdurdodi'r adnoddau sydd i'w defnyddio (gan gynnwys adnoddau cronnus) a thaliadau sydd i'w gwneud i Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Amcangyfrif hwn yn nodi'r symiau sydd i'w cynnwys mewn cysylltiad â Swyddfa Archwilio Cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Rhagair 4

Cwmpas y Gyllideb 2024–25 6

# Rhagair

Mae Archwilio Cymru'n bodoli i roi hyder i'r Senedd a phobl Cymru mewn sector cyhoeddus sy'n perfformio'n uchel ac sy'n atebol. Mae'n darparu tryloywder ac atebolrwydd i drethdalwyr a'u cynrychiolwyr etholedig. Mae'n darparu gwybodaeth ariannol gywir a dibynadwy i gyrff cyhoeddus fel y gallent gynllunio a rheoli eu gwasanaethau a'u cyllid yn effeithiol.

Mae ein gwaith gwerth am arian yn hanfodol i atebolrwydd seneddol cadarn drwy Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Pwyllgor Cyllid a Phwyllgorau eraill y Senedd. Rydym yn archwilio cyfrifon a threfniadau llywodraethu dros 800 o gyrff cyhoeddus ledled Cymru, gan ddarparu'r prif ddull sicrwydd ynghylch sut y mae arian cyhoeddus yng Nghymru yn cael ei reoli, o Lywodraeth Cymru ei hun i'r cyngor cymuned lleiaf, drwy bron pob maes y darperir gwasanaethau cyhoeddus ynddo.

Mae archwiliad cyhoeddus yn rhoi asesiad annibynnol i'r Senedd, cyrff cyhoeddus a'r cyhoedd o'r defnydd a'r rheolaeth o arian cyhoeddus a rhybudd cynnar o broblemau. Pan fo ansawdd neu amseroldeb archwilio yn lleihau, mae'r risgiau o wastraff, twyll a chamreoli yn cynyddu.

Noda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yr heriau ar gyfer gwariant y sector cyhoeddus yng Nghymru yn ei llythyr ar 12 Gorffennaf 2023 – gan nodi mai dim ond 1.4% yn uwch mewn termau arian parod yw dyraniadau'r Prif Grŵp Gwariant ar gyfer 2024-25 nag oedd ar gyfer 2023–24.

Rydym yn cydnabod y pwysau hwn ar gyllid cyhoeddus. Yn wir, y pwysau hynny sy'n gwneud gwaith Archwilio Cymru yn fwy hanfodol fyth. Ni fu'r angen am werth am arian o bob punt o wariant cyhoeddus, ac asesiad amserol dibynadwy o gyflwr rheolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu yn sector cyhoeddus Cymru, erioed yn fwy. Cyfrifoldeb yr Archwilydd Cyffredinol a Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yw egluro'n glir i'r Senedd beth sydd ei angen i ddarparu hynny drwy swyddfa archwilio gyhoeddus gref, gynaliadwy ac annibynnol. Heb swyddfa o'r fath, mae'r risg o fethu â gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau prin hynny yn cynyddu'n fawr. Ac mae'r gost i'r pwrs cyhoeddus am y gwendidau sy'n codi'n gyflym o ganlyniad, lawer yn fwy na'r gost o gynnal trefn archwilio gyhoeddus o ansawdd uchel sydd ag adnoddau priodol. Mae cyfanswm y gost o ddarparu sicrwydd a mewnwelediad annibynnol Archwilio Cymru ychydig dros un geiniog am bob £10 sy'n cael ei wario ar wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.

Mae'r Amcangyfrif hwn yn adlewyrchu'r angen am fuddsoddiad mewn recriwtio, hyfforddi a datblygu'r staff sydd â'r cymwysterau proffesiynol sydd eu hangen ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor Archwilio Cymru. Mae hefyd yn ceisio cyllid i fynd i'r afael â phwysau mwy uniongyrchol ac acíwt sy'n bygwth ein gallu i gyflawni disgwyliadau'r Senedd. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r heriau recriwtio, cadw a morâl sy'n deillio o godiadau cyflog islaw yr hyn a welwyd yng ngweddill y sector cyhoeddus dros y ddwy flynedd ddiwethaf; a'r gystadleuaeth ymosodol am staff yr ydym yn ei hwynebu o'r sector preifat, yn Lloegr yn bennaf.

Rydym yn llwyr ymwybodol o'n cyfrifoldeb tuag at rannau eraill o'r sector cyhoeddus i gyfyngu ar ein costau gweithredu ein hunain a'r ffioedd a godir gennym, ar yr amod nad yw'n peryglu ansawdd archwilio a'r sicrwydd y gallwn ei ddarparu. Er mwyn helpu i wrthbwyso costau staff cynyddol, rydym yn gwneud penderfyniadau anodd i leihau ein gwariant nad yw ar staff. Rydym wedi symud i swyddfeydd llai a rhatach yn ne a gogledd Cymru, lleihau ein costau teithio a'n costau cysylltiedig yn sylweddol, a dileu lwfansau ariannol yr oeddem yn arfer eu talu i'r staff. Trwy ein Hadolygiad Cynaliadwyedd Ariannol, mae gennym ddull sefydledig i herio ein model gweithredu ac i nodi unrhyw gyfleoedd pellach ar gyfer arbedion ac effeithlonrwydd. Ar gyfer 2024–25, unwaith eto, rydym wedi gosod targedau arbedion heriol o ran rheoli swyddi staff gwag a meysydd gwariant eraill.

Gan ystyried hyn i gyd, mae ein Hamcangyfrif yn caniatáu cynnydd o 5.9% yn ein galwad gyffredinol ar Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer Archwilio Cymru. Caniateir cynnydd cyfartalog o 6.4% yn ein cyfraddau ffioedd ar gyfer y Cynllun Ffioedd drafft a atodir wrth yr Amcangyfrif.

Mae ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2022–23 yn nodi ein cofnod o'r hyn a gyflawnwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Ym mis Ebrill eleni, gwnaethom gyflwyno ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023–24 ger bron y Senedd. Mae'r Amcangyfrif hwn yn sicrhau cyllid ar gyfer ein blaenoriaethau yn y dyfodol ar gyfer 2024–25 ac yn darparu gofynion cyllid dangosol hyd at 2028–29. Cyflwynir ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2024–25 gerbron y Senedd cyn mis Mawrth 2024.

Edrychwn ymlaen at drafod ein Hamcangyfrif gyda'r Pwyllgor Cyllid maes o law.



**Dr Kathryn Chamberlain**
Cadeirydd,
Archwilio Cymru



**Adrian Crompton**
Archwilydd
Cyffredinol Cymru

# Cwmpas y Gyllideb 2024–25

## Gofynion cyllideb amcangyfrifedig Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a fydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025

1 O dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n rhaid i Weinidogion gynnig Cynnig Cyllidebol yn y Senedd i awdurdodi defnyddio adnoddau, cadw incwm a thynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer rhai personau perthnasol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru.

2 O ran gwasanaethau a dibenion Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn y flwyddyn a fydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025, bydd Cynnig y Gyllideb yn awdurdodi'r canlynol:

- swm yr adnoddau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei ddefnyddio yn y flwyddyn ariannol (yn unol â'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn);
- swm yr adnoddau sy'n cronni i Swyddfa Archwilio Cymru yn y flwyddyn ariannol, y ceir eu cadw yn hytrach na'u talu i Gronfa Gyfunol Cymru;
- y swm y ceir ei dalu allan o Gronfa Gyfunol Cymru i Swyddfa Archwilio Cymru.

3 Caiff y gofynion hyn, y mae amrywioldeb ffrydiau incwm yn golygu na allant ond bod yn amcangyfrifon eu crynhoi yn **Arddangosyn 1**.

4 Nodir manylion sut yr ydym yn bwriadu defnyddio'r cyllid hwn i gyflawni archwiliad cyhoeddus yng Nghymru yn 2024–25 yn ein gwybodaeth ategol.

**Arddangosyn 1: crynodeb o'r amcangyfrif o ofynion cyllidebol 2024–25**

| | £'000 |
|---|---|
| Adnoddau, ac eithrio adnoddau cronnus, i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru i gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol ac i weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru: | |
| • Refeniw | 9,149 |
| • Cyfalaf | 310 |
| Adnoddau cronnus o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio, ardystio grantiau a gwasanaethau cysylltiedig; adennill costau eraill sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru; incwm amrywiol megis o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol ac adennill costau a ysgwyddir ar gyfer trydydd parti – y cyfan i'w ddefnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru i gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol ac ar wasanaethau cysylltiedig a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. | 17,476 |
| Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n dod yn ddyledus i'w talu yn y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru. | 9,127 |

5 Mae **Arddangosyn 2** yn cysoni cyfanswm cais Swyddfa Archwilio Cymru am adnoddau â'i gofyniad arian parod net am y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2025.

**Arddangosyn 2: cysoni'r angen am adnoddau â'r angen i ddefnyddio arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru**

| | £'000 |
|---|---|
| Cais net am adnoddau – refeniw a chyfalaf | 9,459 |
| Addasiad nad yw'n arian parod – dibrisiant | (280) |
| Addasiad nad yw'n arian parod – dibrisiant a llog Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 | (356) |
| Taliadau rhent ar brydlesi | 104 |
| Addasiad nad yw'n arian parod – symudiadau mewn cyfalaf gweithio | 200 |
| Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n dod yn ddyledus i'w talu yn y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru | 9,127 |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Gwybodaeth ategol ar gyfer yr Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2025

Hydref 2023

# Cynnwys


Crynodeb o'r Amcangyfrif 3

Trosolwg o Amcangyfrif 2024–25 3

Ein hymateb i'r Datganiad o Egwyddorion 5

Gwerth am Arian yn Archwilio Cymru 7

Ein Cyllideb 2024–25 13

Ein galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru 2024–25 22

Cynllun Ariannol Tymor Canolig 29

**Atodiadau 30**

1 Cyllideb Refeniw 2024–25 31

2 Cynllun Ffioedd Drafft 2024–25 33

# Crynodeb o'r amcangyfrif

## Trosolwg o Amcangyfrif 2024–25

1 Gyda'r Amcangyfrif hwn rydym yn gofyn am gynnydd o 5.9% (adnoddau) i'n galwad gyffredinol ar gyllid Cronfa Gyfunol Cymru yn 2024–25, heb unrhyw gynnydd mewn arian parod o'i gymharu â'n Hamcangyfrif cychwynnol ar gyfer 2023–24.

2 Tri phrif sbardun y cynnydd sylfaenol yn ein Hamcangyfrif ar gyfer y flwyddyn nesaf yw cyflog, ehangu ein cynlluniau prentisiaeth a hyfforddeion graddedig a'r cynnydd ym mis Ebrill 2024 yng nghyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023.

3 Mae angen codiad cyflog oherwydd bod cynnydd yn Archwilio Cymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod ar ei hôl hi o'i gymharu â mannau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a chostau byw.

4 Rydym hefyd yn gweld, am y tro cyntaf, nifer sylweddol o staff yn ymadael i gwmnïau cyfrifeg y sector preifat, yn Lloegr yn bennaf. Mae effaith y ffactorau hyn ar y cyd yn golygu cynnydd mewn trosiant staff, gweithredu diwydiannol parhaus, a morâl staff is. Rydym yn disgwyl i'r farchnad lafur fyd-eang am archwilwyr barhau i fod yn dynn am beth amser. Am y tymor hwy, felly, rydym yn dymuno buddsoddi ymhellach yn ein cynlluniau hyfforddeion llwyddiannus er mwyn cryfhau ac ehangu'r llif o dalent â chymwysterau ariannol i helpu i ddiwallu anghenion Archwilio Cymru a'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach.

5 Mae newidiadau eraill yn adlewyrchu'r costau dwyflynyddol sy'n gysylltiedig â'r Fenter Twyll Genedlaethol a diwedd y gostyngiad dwy flynedd y cytunwyd arno yn ein galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru yn ymwneud â dileu ein taliad Lwfans Teithio i staff.

6 Mae'r cynllun ffioedd drafft sydd ynghlwm wrth yr Amcangyfrif hwn yn cynnig cynnydd cyfartalog o oddeutu 6.4% i'n cyfraddau ffioedd yn 2024–25 i fodloni pwysau chwyddiant ar ein cyllidebau cyflog.

**Arddangosyn 1: newidiadau yn ein galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru 2024–25**

| | | | Newid | |
|---|---|---|---|---|
| | **2024-25 £'000** | **2023-24 £'000** | **Adnoddau £'000** | **Arian Parod £'000** |
| Gwaith archwilio | 4,535 | 4,221 | 314 | 314 |
| Budd ehangach y sector cyhoeddus | | | | |
| • Hyfforddiant ariannol Cymru gyfan | 870 | 630 | 240 | 240 |
| • Cyfnewidfa Arfer Da | 611 | 575 | 36 | 36 |
| • Y Fenter Twyll Genedlaethol (costau blynyddol) | 150 | 147 | 3 | 3 |
| Ein costau rhedeg | 2,853 | 2,923 | (70) | (70) |
| Cyfalaf | 310 | 310 | - | - |
| Symudiadau nad ydynt yn arian parod | | | - | (522) |
| **Gwaelodlin Cronfa Gyfunol Cymru** | **9,329** | **8,806** | **523** | **1** |
| Cyllid cylchol y Fenter Twyll Genedlaethol | 130 | 0 | 130 | 130 |
| Gostyngiad dros 2 flynedd mewn Lwfans Teithio | 0 | (354) | 354 | 354 |
| **Cyfanswm Cronfa Gyfunol Cymru** | **9,459** | **8,452** | **1,007** | **485** |

## Ein hymateb i’r Datganiad o Egwyddorion

7 Ar 12 Gorffennaf 2023, ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid gan nodi’r ffactorau i lywio gwaith cynllunio cyllidebau yn y dyfodol ac asesiad gorau’r Llywodraeth o lefel y cyllid a fydd ar gael yn ystod y blynyddoedd i ddod.

8 Roedd y llythyr yn ei gwneud yn glir nad oes llawer o dwf mewn termau arian parod yng nghynlluniau dangosol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024–25 a bod ansicrwydd sylweddol o hyd ynghylch y cyllid a fydd ar gael yn ystod y blynyddoedd i ddod.

9 Rydym yn cydnabod y pwysau hwn ar gyllid cyhoeddus. Yn wir, y pwysau hynny sy’n gwneud gwaith Archwilio Cymru yn fwy hanfodol fyth. Ni fu’r angen i gael gwerth am arian o bob punt o wariant cyhoeddus, ac asesiad amserol dibynadwy o gyflwr rheolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu yn sector cyhoeddus Cymru, erioed yn fwy.

10 Cyfrifoldeb yr Archwilydd Cyffredinol a Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yw egluro’n glir i’r Senedd beth sydd ei angen i ddarparu hynny drwy swyddfa archwilio gyhoeddus gref, gynaliadwy ac annibynnol. Heb swyddfa o’r fath, mae’r risg o fethu â gwneud y defnydd gorau o’r adnoddau prin hynny yn cynyddu’n fawr. Ac mae’r gost i’r pwrs cyhoeddus am y gwendidau sy’n codi’n gyflym o ganlyniad, lawer yn fwy na’r gost o gynnal trefn archwilio gyhoeddus o ansawdd uchel sydd ag adnoddau priodol.

11 Mae cyfanswm y gost o ddarparu sicrwydd a mewnwelediad annibynnol Archwilio Cymru ychydig dros un geiniog am bob £10 sy’n cael ei wario ar wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.

12 Fel y cyfeirir ato yn llythyr y Gweinidog, mae chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn uwch ar hyn o bryd na rhagolwg mis Mawrth Llywodraeth y DU o 4.1%–6.8% ym mis Gorffennaf 2023. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, roedd y twf blynyddol cyfartalog mewn cyflogau rheolaidd ar gyfer mis Mai i fis Gorffennaf 2023 yn 7.8% yn gyffredinol, ac yn 6.6% yn y sector cyhoeddus – o’i gymharu â 4% i staff Archwilio Cymru.

13 Mae bron i 85% o'n costau mewn cysylltiad â'n staff. Roedd ein Hamcangyfrifon ar gyfer 2022–23 a 2023–24 yn darparu ar gyfer codiadau cyflog o 2.5% a 4% yn y drefn honno. Trwy arbedion ar gyllidebau eraill, roeddem yn gallu cyflawni cynnydd o 3% mewn cyflogau staff yn 2022–23, ond dim ond y 4% a ddarperir yn yr Amcangyfrif ar gyfer 2023–24 y gallwn ei gynnig. Mae hyn o'i gymharu â chynnydd o 5% a 7.8% yn y drefn honno yn enillion cyfartalog y DU ar gyfer y blynyddoedd hynny – sy'n ddiffyg o dros 6% dros y ddwy flynedd.

14 Mae cyrff archwilio cyhoeddus eraill wedi dyfarnu codiadau cyflog uwch i'w staff. Bu cynnydd o 3% a 6.5% yng nghyflog staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a chynigodd Audit Scotland gynnydd o 5.4% a 6% i'w staff yn y drefn honno yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r cynnydd cyflogau eleni ar gyfer staff y gwasanaeth sifil, llywodraeth leol, y GIG a rhannau eraill o'r sector cyhoeddus i gyd yn fwy na'r cynnydd yn Archwilio Cymru.

15 O ystyried asesiad Banc Lloegr y bydd chwyddiant yn parhau i fod yn uwch na 5% yn ystod gweddill 2023–24, mae'n annhebygol y bydd pwysau ar gyflogau yn dod i ben yn fuan. Er mwyn dechrau dod â'n graddfeydd cyflog yn unol ag eraill, ac i atal staff rhag ymadael i rannau o'r sector cyhoeddus lle mae'r cyflog yn well ac i'r sector preifat, rydym wedi darparu ar gyfer cynnydd yn ein cyllideb gyflogau i wneud iawn am y diffyg dros y ddwy flynedd ddiwethaf (3%) a 5% arall fel amcangyfrif o'r codiad cyflog yn 2024–25. Mae hyn yn effeithio ar ein cyfraddau ffioedd arfaethedig a'n galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru.

16 Gellir priodoli ychydig dros £90,000 o'r cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn yng nghostau ein staff i'r newidiadau yng nghyfraniadau pensiwn cyflogwyr o fis Ebrill 2024 a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae'r Trysorlys wedi cadarnhau y bydd y costau ychwanegol hyn yn cael eu talu'n ganolog.

17 Rydym yn ymateb i'r pwysau hyn o ran costau drwy nodi arbedion lle y bo modd. Rydym yn nodi ein cyflawniadau hyd yma a chynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

# Gwerth am arian yn Archwilio Cymru

## Gwerth archwilio cyhoeddus

18 Mae'n darparu tryloywder ac atebolrwydd i drethdalwyr a'u cynrychiolwyr etholedig. Mae'n darparu gwybodaeth ariannol gywir a dibynadwy i gyrff cyhoeddus fel y gallent gynllunio a rheoli eu gwasanaethau a'u cyllid yn effeithiol.

19 Mae archwilio yn rhoi asesiad annibynnol i'r Senedd, cyrff cyhoeddus a'r cyhoedd o gyflwr rheolaeth ariannol a chorfforaethol yn y sector cyhoeddus a rhybudd cynnar o broblemau sy'n codi. Pan fo ansawdd neu amseroldeb archwilio yn lleihau, mae'r risgiau o wastraff, twyll a chamreoli yn cynyddu.

20 Ym mis Mehefin eleni, adroddodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ar gyflwr archwilio cyhoeddus mewn llywodraeth leol yn Lloegr, gan ddisgrifio'r system archwilio llywodraeth leol fel un 'sydd ar fin torri'.

21 Mae'r ôl-groniad o archwiliadau sydd heb eu cwblhau mewn llywodraeth leol yn Lloegr yn arwyddocaol – mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn awgrymu cynifer â 1,000 ohonynt ar draws 300+ o awdurdodau lleol, ac mae rhai ohonynt yn dyddio'n ôl i 2015. Mae'r ôl-groniad hwn yn cyd-daro â nifer o gynghorau yn Lloegr yn cyflwyno hysbysiadau statudol ('hysbysiadau adran 114') sy'n eu hatal rhag mynd i unrhyw ymrwymiadau gwariant newydd ac eithrio i ariannu gwasanaethau statudol. Cyngor Hackney oedd y cyngor lleol cyntaf i gyhoeddi hysbysiad a.114 yn 2000 – y cyngor cyntaf i wneud hynny ers 18 mlynedd.

22 Dangosir y cyfuniad hwn o oedi wrth archwilio a straen ariannol difrifol gan rai methiannau llywodraeth leol uchel eu proffil yn Lloegr, gan gynnwys:

- ym mis Mawrth 2023, cyfeiriodd Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau y DU at gyfrifon Croydon ar gyfer 2019–20, 2020–21 a 2021–22 a oedd yn parhau i fod yn agored a phwysau ariannol presennol gan gynnwys £162 miliwn o wallau mewn cyfrifon hanesyddol yr oedd angen eu cywiro.
- ym mis Mehefin 2023, mae Cyngor Woking wedi datgan na all ddarparu mwy na’r gwasanaethau sy’n ofynnol yn gyfreithiol ar ôl iddo nodi dyled o £2.6 biliwn (o’i chymharu â chyllideb flynyddol o £24 miliwn). Mae ei gyfrifon archwiliedig ar gyfer 2019–20 a’r blynyddoedd diweddarach yn rhagorol.
- mae comisiynwyr a anfonwyd i gyngor Thurrock wedi nodi colledion o £275 miliwn ar fuddsoddiadau mentrus a wnaed gan ddefnyddio arian a fenthycwyd. Nid yw archwilwyr wedi cymeradwyo unrhyw gyfrifon gan Thurrock ers 2019–20.
- yn 2023, nododd archwilydd allanol Cyngor Dinas Birmingham bryderon ynghylch digonolrwydd darpariaethau ar gyfer hawliadau cyflog cyfartal yn ei gyfrifon 2020–21 a 2021–22 a’i allu i gyflawni arbedion neu gynhyrchu incwm i ariannu’r hawliadau. O ganlyniad, mae’r Cyngor wedi rhagweld y bydd diffyg rhagamcanol o £87 miliwn ar gyfer blwyddyn 2023–24, a fydd yn cynyddu ar gyfer 2024–25.

23 Yng Nghymru, rydym mewn sefyllfa llawer gwell gydag ôl-groniad hanesyddol cymharol isel ar ein prif archwiliadau. Ar 30 Medi 2023, mae gennym ddau archwiliad awdurdod unedol 2021–22, un archwiliad parc cenedlaethol 2021–22 ac un archwiliad llywodraeth ganolog 2021–22 sydd dros ben, ac mae pob un o’r rhain yn ymwneud â materion archwilio yn y cyrff penodol. O ran archwiliadau 2022–23 hyd yn hyn, cwblhawyd yr holl archwiliadau GIG erbyn y dyddiad cau statudol (gydag un yn methu â chyflawni dyddiad cau gweinyddol cynharach Llywodraeth Cymru, sef 31 Gorffennaf).

24 Ond allwn ni ddim bod yn hunanfodlon – rydym ar ei hôl hi o’i gymharu â ble y dylem ni fod. Mae ein her recriwtio a chadw, a’r ôl-groniad o waith sy’n dal i fodoli ar ôl blynyddoedd COVID, yn golygu na fyddwn yn cyflawni’r holl archwiliadau llywodraeth leol yn brydlon eleni. Bydd hyn yn cael effaith ganlyniadol ar y flwyddyn nesaf, sy’n golygu ei bod hyd yn oed yn anoddach dal i fyny.

25 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn benderfynol o sicrhau bod y Senedd yn deall y gost o ddarparu archwiliadau cyhoeddus o ansawdd uchel a goblygiadau peidio â gwneud hynny. Os na allwn gyflawni ein gwaith, ni fydd gan y Senedd, gwleidyddion lleol etholedig na'r cyhoedd wybodaeth ddibynadwy am lywodraethu a rheoli ariannol. Bydd hynny'n arwain yn gyflym iawn at wendidau a methiannau y bydd eu costau'n drech i raddau helaeth na'r gost o gynnal trefn archwilio cyhoeddus o ansawdd uchel sydd ag adnoddau priodol.

26 Gellir gweld pwysigrwydd cynnal o leiaf gryfder ein trefniadau presennol a'n darpariaeth amserol yng Nghymru o rai enghreifftiau eglurhaol diweddar:

- ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, pe na fyddai Archwilio Cymru wedi cyflawni ei archwiliad o gyfrifon ac adroddiadau llywodraethu, ni fyddai camreolaeth miliynau lawer o bunnau o arian cyhoeddus wedi ei darganfod;
- costiodd gwaith archwilio pellach a gomisiynwyd wedi hynny gan gwmni sector preifat i archwilio'r materion a nodwyd gan Archwilio Cymru yn fwy manwl, dros 3/4 miliwn o bunnoedd;
- rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn amodol ar archwiliadau cyfrifon 2022–23 pob un o'r saith Bwrdd Iechyd yn GIG Cymru. Rhybuddiodd hyn y Senedd am fethiant y mwyafrif o Fyrddau i gyflawni'r ddyletswydd statudol a ddeddfir gan y Senedd, er mwyn mantoli'r cyfrifon hyd yn oed dros gyfnod o dair blynedd;
- mae ein harchwiliad o Amgueddfa Cymru wedi tynnu sylw at broblemau sy'n arwain at gost sylweddol i'r pwrs cyhoeddus. Trwy nodi ac adrodd yn gyhoeddus ar faterion o'r fath, gallwn obeithio osgoi costau tebyg yn y dyfodol.

27 Rydym wedi tynnu sylw at adroddiadau Amcangyfrif blaenorol y ffioedd archwilio cynyddol a godir gan y sector preifat o ganlyniad i bwysau rheoleiddiol a newid proffesiynol parhaus.

28 Un o achosion posibl yr oediadau wrth gynnal archwiliadau llywodraeth leol yn Lloegr a ddisgrifir uchod oedd y lefel isel o ffioedd archwilio ar gyfer yr archwiliadau hynny, fel yr adroddir yn Adolygiad Redmond.

29 Ar hyn o bryd mae Public Sector Audit Appointments (PSAA), y corff sy'n penodi archwilwyr i gyrff Llywodraeth Leol yn Lloegr yn ymgynghori ar gynnig i sicrhau cynnydd o 151% yn y ffioedd archwilio ar gyfer archwiliadau'r cyrff hynny yn 2023–24.

30 Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol, ymhlith cyrff eraill, yn derbyn y cynigion ac wedi galw ar y Llywodraeth i ddarparu cyllid i dalu am y cynnydd mewn costau amcangyfrifedig o £50 miliwn.

31 Er bod y cynnydd yn amlweddog – gan adlewyrchu lefelau ffioedd sy'n isel yn hanesyddol yn ogystal â rhagor o alw am archwiliadau – mae'n amlygu'r pwysau cost sy'n amlwg ar draws y proffesiwn archwilio ehangach.


## Ein perfformiad hyd yn hyn

32 Rydym yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd dangos ein bod yn mynd i'r afael â'n costau ein hunain ac yn darparu gwerth am arian.

33 Yn Archwilio Cymru, rydym yn ymdrechu'n barhaus i ddarparu archwiliadau cyhoeddus o'r radd flaenaf i'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn y ffordd fwyaf costeffeithiol.

34 Yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf, rydym wedi cyflawni gostyngiad o 16% mewn costau archwilio cyhoeddus yng Nghymru mewn termau real[1] er gwaethaf y cynnydd yng nghwmpas ein gwaith, cynnydd mewn gofynion o ran ansawdd archwilio a safonau archwilio newydd. Cynrychiolir y gostyngiad hwn yn **Arddangosyn 2**. Mae'r arbedion cronnus a gynhyrchwyd ar draws y blynyddoedd hynny yn cyfateb i bron i £33 miliwn.

**Arddangosyn 2: cost archwilio cyhoeddus 2013–14 hyd 2023–24**




1 Ar sail datchwyddyddion Cynnyrch Domestig Gros a gyhoeddwyd gan y SYG, Mehefin 2023.

35 Gwnaethom gyflawni'r arbedion hyn drwy'r canlynol:

- newid ffurf ein gweithlu yn sylweddol. Rydym wedi lleihau cyfran y cyfarwyddwyr a'r rheolwyr yn ein gweithlu ac wedi buddsoddi mewn rhaglen hyfforddi graddedigion a phrentisiaid – gan ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion sy'n ymadael â'r ysgol a graddedigion yng Nghymru, a gwella symudedd cymdeithasol yn ogystal â darparu rheolwyr ariannol ar gyfer sector cyhoeddus Cymru yn y dyfodol.
- trefnu ein gwaith archwilio yn fewnol. Ers 2021–22, nid ydym mwyach yn defnyddio cwmnïau sector preifat i gyflawni ein gwaith archwilio. Yn hyn o beth, rydym yn unigryw ymhlith cyrff archwilio cyhoeddus y DU. Er bod hyn yn ychwanegu at y pwysau i gyflawni sydd ar staff Archwilio Cymru, mae hyn wedi diogelu'r pwrs cyhoeddus rhag y cynnydd sylweddol mewn prisiau am y gwaith hwn y mae asiantaethau archwilio eraill y DU yn ei brofi.
- lleihau costau teithio o £1.2 miliwn yn 2019–20 i £300,000 yn yr Amcangyfrif hwn. Gwnaethom drafod â'n hundebau llafur i gael gwared ar lwfans teithio a dalwyd i'n staff archwilio yn flaenorol ac rydym wedi newid y ffordd yr ydym yn gweithio i leihau ein teithio cyffredinol – gan ddarparu arbedion amgylcheddol yn ogystal ag arbedion o ran costau.
- rydym wedi symud i swyddfeydd llai a rhatach yng ngogledd a de Cymru, gan arbed oddeutu £250,000 bob blwyddyn er gwaethaf costau cynyddol am gyfleustodau.
- rydym yn defnyddio technoleg a dadansoddeg data i gyflawni ein gwaith archwilio mor effeithlon â phosibl ac i leihau ein teithiau ledled Cymru.

## Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol

36 Mae ein Hadolygiad o Gynaliadwyedd Ariannol yn parhau i nodi meysydd y gellir gwneud arbedion pellach ynddynt. Yn 2023–24, mae'r Adolygiad Cynaliadwyedd Ariannol wedi llwyddo i nodi £500,000 o arbedion ar gyfer y flwyddyn, ac mae £238,000 o'r rhain yn digwydd o'r naill flwyddyn i'r llall. Gwnaeth hyn drwy'r canlynol:

- symud i swyddfeydd llai/rhatach yng ngogledd Cymru
- herio ein cyllidebau nad ydynt ar gyflogau a'u lleihau lle bynnag y bo hynny'n bosibl
- manteisio ar swyddi staff gwag ac adolygu ein gwasanaethau cymorth er mwyn lleihau swyddi.

37 Ar gyfer 2024–25, mae gennym darged arbedion heriol unwaith eto, sef £400,000 (yn ychwanegol at yr arbedion a nodwyd yn 2023–24) y byddwn yn ceisio ei gyflawni drwy'r canlynol:

- adolygu ein prosesau busnes i sicrhau eu bod mor effeithlon â phosibl ac yn defnyddio technolegau presennol a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg.
- herio ymhellach ein cyllidebau nad ydynt ar gyflogau a lleihau neu ddileu'r rhai nad ydynt yn darparu gwerth da am arian.
- cael y gwerth gorau wrth gaffael
- parhau i herio ein model gweithredu gan gynnwys faint y gallwn godi am ein staff archwilio a sut a ble yr ydym yn cyflawni ein gwaith archwilio.

# Ein cyllideb 2024–25

## Cyllideb 2024–25

38 Telir am oddeutu dwy ran o dair o gostau rhedeg Archwilio Cymru o'r ffioedd yr ydym yn eu codi ar gyrff archwiliedig am ein gwaith. Mae'r traean sy'n weddill, ynghyd â'r holl wariant cyfalaf, yn dod yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru – darperir rhagor o fanylion am hyn yn y bennod nesaf.

39 Mae'r Amcangyfrif hwn yn disgrifio cyfanswm ein cyllideb ar gyfer 2024–25 gan gynnwys y rhan honno a ariennir gan ffioedd. Mae Cynllun Ffioedd drafft ar gyfer 2024–25 sy'n esbonio sut y bydd ffioedd yn cael eu codi ar gyrff archwiliedig ynghlwm wrth y ddogfen hon.

40 Mae cyllideb refeniw fanwl mewn termau arian parod ac adnoddau ynghlwm fel Atodiad 1.

### Costau staff, recriwtio a chadw

41 Mae bron i 85% o'n cyllideb yn ariannu cyflogau a chostau cysylltiedig ar gyfer oddeutu 300 o gyflogeion a gyflogir i gyflawni ein gwaith archwilio ledled Cymru – naill ai'n uniongyrchol neu drwy gefnogi'r gwaith archwilio hwn.

42 Y llynedd, tynnodd ein Hamcangyfrif sylw at y pwysau yn y farchnad gyflogaeth am staff archwilio cymwysedig. Mae'r pwysau hynny wedi cynyddu.

43 Mae prinder byd-eang o weithwyr archwilio a chyllid proffesiynol cymwysedig. Ar ddiwedd 2022, er enghraifft, ychwanegodd llywodraeth Seland Newydd 'archwilydd' at y 'Rhestr Werdd' fewnfudo, gan ddarparu fisa ar gyfer preswylio yn syth i bobl sydd â chymwysterau addas.

44 Yn nes at adref, mae pob sefydliad archwilio – yn y sectorau cyhoeddus a phreifat – yn ei chael hi'n anodd recriwtio digon o staff cymwys. Rydym yn gweld cyfradd trosiant uwch nag erioed o'r blaen – dros 15% yn 2022–23 – gyda staff â chymwysterau cyfrifyddu yn gadael i fynd i rannau eraill o'r sector cyhoeddus lle mae cyflog yn uwch e.e. y GIG a llywodraeth leol, ac i'r sector preifat, yn Lloegr yn bennaf. Mae taliadau cydnabyddiaeth uwch yn y sector preifat bellach yn dechrau troi'r fantol yn erbyn atyniadau traddodiadol y sector cyhoeddus, megis buddion pensiwn, cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, a chymhelliant gwasanaeth cyhoeddus.

45 Er mwyn arafu'r llif hwn o leiaf, mae'n rhaid inni gynnig cynnydd ystyrlon mewn cyflogau – er mwyn dal i fyny â'r cynnydd a welwyd mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus a chynyddu ein cystadleurwydd o'i gymharu â'r sector preifat. O ystyried y codiadau cyflog is na chwyddiant a ddyfarnwyd yn 2022–23 a 2023–24, teimlwn nad oes gennym unrhyw ddewis heblaw caniatáu cynnydd cyflog mwy sylweddol yn 2024–25 i ganiatáu i'n staff 'ddal i fyny' â gweddill y sector cyhoeddus.

46 Mae ein cyllideb staffio yn cynnwys darpariaeth ar gyfer arbedion disgwyliedig o 5% oherwydd trosiant staff naturiol yn ystod y flwyddyn. Er ein bod wedi cyflawni neu ragori ar y targed hwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae risg o ran morâl staff, fel y dengys canlyniadau arolwg staff, a llai o incwm yn deillio o ffioedd os nad oes staff ar gael i ddarparu'r incwm fel y cynlluniwyd.

47 Ddwy flynedd yn ôl, cytunwyd yn rhan o setliad a negodwyd, y bydd Lwfans Teithio blynyddol o £3,350 a delir i'r staff yn cael ei ddiddymu o fis Ebrill 2024. Yn unol â'r setliad hwnnw, bydd cynnydd o £900 yn yr holl bwyntiau cyflog o'r dyddiad hwnnw[2], ar wahân i unrhyw ddyfarniad cyflog y cytunir arno.

48 Er y gallwn ddylanwadu ar ein gallu i recriwtio a chadw drwy ein cynnig cyflogaeth cyffredinol, credwn ein bod yn debygol o weld marchnad cyflogaeth heriol am beth amser eto. Mae ein profiad dros y blynyddoedd diwethaf yn dweud wrthym nad recriwtio staff cymwys yn allanol yw'r ateb.

49 Ychydig iawn o ymgeiswyr allanol y mae swyddogaethau cymwys a hysbysebwyd yn allanol wedi eu denu, er gwaethaf hysbysebion wedi eu targedu ar fyrddau recriwtio proffesiynol a sylw helaeth ar y cyfryngau cymdeithasol. Nid yw hyn yn benodol i Archwilio Cymru gan fod sectorau cyhoeddus eraill, cyrff gwasanaethau sifil a chwmnïau preifat hefyd yn ei chael hi'n anodd, gyda chwmnïau yn recriwtio'n ymosodol.

50 Credwn mai ffordd well, yr unig ffordd efallai, o sicrhau cynaliadwyedd hirdymor Archwilio Cymru yw datblygu a hyfforddi rhagor o'n staff ein hunain.

51 Mae gennym raglen datblygu prentisiaid a hyfforddai graddedig effeithiol iawn eisoes. Ar hyn o bryd, mae gennym oddeutu 60 o aelodau staff yn y sefydliad (un rhan o bump o'n holl staff) sydd naill ai ar ein cynllun prentisiaid neu ein cynllun hyfforddai graddedig. Bob blwyddyn, mae rhwng 10–15 o'r grŵp hwn yn cwblhau eu harholiadau terfynol ac yn cymhwyso fel cyfrifyddion siartredig.

2 Heblaw hyfforddeion a phrentisiaid yr addaswyd eu cyflogau yn 2022–23 i adlewyrchu'r effaith a gafodd colli'r lwfans ar gyflogau wedi eu meincnodi.

52 O ystyried cyflwr y farchnad, credwn mai'r ffordd orau o sicrhau iechyd hirdymor Archwilio Cymru yw cryfhau'r rhaglenni hyn ymhellach – cynyddu nifer y staff yr ydym yn eu cyflogi, cryfhau maes yr ymgeiswyr drwy ein gwaith allgymorth a'n marchnata, ehangu'r profiad hyfforddi drwy amlygu hyfforddeion i bob agwedd ar waith Archwilio Cymru, a gwneud rhai newidiadau ymarferol i ddyluniad y rhaglen i leihau nifer y staff newydd gymhwyso a gollir yn fuan ar ôl iddynt gymhwyso.

53 Mae ein Hamcangyfrif yn gofyn am £220,000 ychwanegol i'n cyllideb sylfaenol i'n galluogi i wneud hyn. Ni welir budd yr ehangiad hwn am rai blynyddoedd (mae ein cynllun prentisiaid yn rhedeg am ddwy flynedd, ein cynllun graddedigion am bedair blynedd). Ni fydd staff y flwyddyn nesaf yn gymwys, felly, tan ar ôl i'r Archwilydd Cyffredinol presennol gwblhau ei gyfnod yn y swydd. Ond bydd ehangu yn rhoi model gweithlu cryfach, mwy cadarn a chynaliadwy i'w olynydd, a'r Senedd nesaf.

54 Nid ni yw'r unig sefydliad sy'n cael trafferth recriwtio a chadw gweithwyr proffesiynol cymwys ym maes cyllid. Rydym yn gweld yr un her yn adrannau cyllid yn ein cyrff archwiliedig. Felly, mae ein cynlluniau hyfforddeion yn darparu budd ehangach i'r sector cyhoeddus, gan ein bod yn gwybod bod rhai o'n hyfforddeion llwyddiannus yn gadael Archwilio Cymru i ddilyn gyrfaoedd mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus yng Nghymru ar ôl iddynt gymhwyso.

## Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr

55 Gwneir prisiad o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil bob pedair blynedd ac mae'n darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i bennu cyfraddau cyfraniad y cyflogwr. Mae adroddiad prisio 2020 bellach wedi ei gyhoeddi ac, ar ddiwedd mis Medi 2023, cafodd cyflogwyr eu hysbysu am y cyfraddau cyfraniadau newydd a fydd yn cael eu talu o fis Ebrill 2024.

56 Yn dilyn trosglwyddo pob aelod gweithredol i alffa ar 1 Ebrill 2022, cytunwyd nad yw'r strwythur ar sail cyflog blaenorol yn briodol mwyach. Felly, bydd cyfraniad cyflogwr safonol yn cael ei gyflwyno.

57 Wrth baratoi am y prisiad, cyhoeddodd Trysorlys EF y byddai'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir ar gyfer pennu cost taliadau pensiwn yn y dyfodol (a elwir yn "SCAPE") yn cael ei gostwng o 2.4% i 1.7%. O ganlyniad, mae cost darparu buddion wedi cynyddu a bydd y gyfradd gyfartalog o ran cyfraniad y cyflogwr yn cynyddu i 28.97%.

58 Ar 30 Mawrth 2023, cyhoeddodd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys Ddatganiad Gweinidogol Ysgrifenedig i gadarnhau'r gyfradd SCAPE newydd ac ymrwymiad i ddarparu cyllid ar gyfer cynnydd yng nghyfraddau cyfraniad y cyflogwr i gyflogwyr yr ariennir eu costau cyflogaeth yn ganolog drwy wariant adrannol. Darperir cyllid ar gyfer gweinyddiaethau datganoledig trwy Fformiwla Barnett.

59 Ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, rydym wedi amcangyfrif y bydd y newid hwn yn peri cynnydd o ychydig dros £90,000 i'n bil cyflogau – gyda £20,000 yn cael ei dalu o Gronfa Gyfunol Cymru a'r balans yn cael ei dalu o ffioedd uwch i gyrff archwiliedig.

## Safle

60 Mae Archwilio Cymru yn rhentu tair swyddfa ar brydles yng Nghaerdydd, Penlle'r-gaer a Chyffordd Llandudno. Fel y nodir yn ein Hail Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2022–23 a'n Hamcangyfrif Atodol ar gyfer 2023–24, gwnaethom y penderfyniad i adleoli ein swyddfeydd yng Nghaerdydd a gogledd Cymru i safleoedd llai i ddarparu arbedion o oddeutu £250,000 (25%) y flwyddyn – gan leihau ein cyllideb safle yn 2024-25 i ychydig dros £730,000.

61 Rydym yn bwriadu adolygu ein gofynion gweithle yng ngorllewin Cymru ymhellach yn ystod 2024–25. Os penderfynir disodli neu adnewyddu'r trefniadau rhentu ar brydles presennol, efallai y bydd angen inni geisio cael Amcangyfrif Atodol yn ystod y flwyddyn – ar gyfer goblygiadau Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 yn unig.

62 Ar gyfer 2024–25, rydym hefyd yn sicrhau lleihad o oddeutu £100,000 yn ein galwad am arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru er mwyn adlewyrchu cyfnod di-rent ym mhrydles ein swyddfa yng Nghaerdydd. Yn unol â gofynion Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16, adlewyrchir manylion cyfanswm cost y brydles ddeng mlynedd yn ein cyllideb adnoddau.

## Teithio a Chynhaliaeth

63 Yn 2019–20, gwariodd Archwilio Cymru £1.2 miliwn ar deithio a chynhaliaeth gan gynnwys £638,000 ar Lwfans Teithio blynyddol sefydlog i'n staff symudol.

64 Yn dilyn adolygiad gwerth am arian gan ein harchwilwyr allanol, gwnaethom y penderfyniad anodd i ddiddymu lwfans sefydlog i'r staff. Cytunwyd ar drefniadau pontio, gan gynnwys cynnig taliad ymlaen llaw neu gadw'r hawl i gael lwfans teithio tan fis Mawrth 2024 wrth drafod gyda'n partneriaid Undeb Llafur.

65 Ariannwyd y taliad ymlaen llaw yn rhannol o Amcangyfrif Atodol yn 2021–22 gyda'r cytundeb bod hyn yn cael ei adlewyrchu mewn galwad o £354,000 y flwyddyn yn llai ar Gronfa Gyfunol Cymru dros y ddwy flynedd ganlynol. Daw'r trefniadau pontio hyn i ben ar 31 Mawrth 2024 fel yr adlewyrchir yn yr Amcangyfrif hwn.

66 Ers pandemig COVID, rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol mewn teithio wrth i'n staff newid i drefniadau gweithio hybrid newydd. Mae staff archwilio yn gweithio o'n swyddfeydd neu gartref yn bennaf yn hytrach nag mewn cyrff archwiliedig, gan leihau ein costau ni a'r effaith amgylcheddol yn sgil teithio.

67 O ganlyniad i'r newidiadau hyn, rydym yn disgwyl gostyngiad o ychydig dros £300,000 i gyfanswm ein gwariant ar deithio a chynhaliaeth yn 2024–25, sef gostyngiad o bron i 70% o'i gymharu â'r blynyddoedd cyn COVID.

## Ffioedd Archwilio

68 Ar gyfer 2024–25, rydym yn bwriadu talu am oddeutu 66% o'n gwariant o'r ffioedd a godir gennym ar gyrff archwiliedig. Mae'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth i ni beidio â chodi 'dim mwy na'r gost lawn' am y gwaith archwilio ym mhob corff archwiliedig. Rydym yn cyfrifo'r gost lawn hon ar sail ein cyllideb ar gyfer y flwyddyn a'r cyfraniad o Gronfa Gyfunol Cymru tuag at ein costau rhedeg.

69 Bydd ein gwaith ar gronfeydd Amaethyddol yr UE yn dod i ben yn 2024–25 i raddau helaeth ac rydym yn bwriadu defnyddio'r capasiti ychwanegol y bydd hyn yn ei ryddhau i ddechrau mynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith archwilio sydd wedi datblygu ers y pandemig.

70 Rydym yn ymwybodol iawn o'r pwysau ariannol ar bob rhan o'r sector cyhoeddus a'n cyfrifoldeb i gyflawni ein gwaith archwilio mor effeithlon â phosibl. Rydym yn ymdrechu'n gyson, felly, i leihau cost gyffredinol archwiliadau i gyrff cyhoeddus, heb gyfaddawdu ansawdd yr archwiliadau hynny.

71 Llywodraethir yr incwm a dderbyniwn o ffioedd gan Gynllun Ffioedd, ac mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ni ei gyhoeddi bob blwyddyn o leiaf.

72 Ceir ein Cynllun Ffioedd drafft ar gyfer 2024–25 yn y ddogfen Amcangyfrif hon (Atodiad 2). Fe'i cynhwysir i ddangos y gyd-ddibyniaeth rhwng yr incwm sy'n deillio o ffioedd a'r Amcangyfrif cymeradwy. Ar ôl ystyried yr Amcangyfrif a'r Cynllun Ffioedd drafft, byddwn yn gosod ein Cynllun Ffioedd ar gyfer 2024–25 gerbron y Senedd ac yna'n cadarnhau ffioedd amcangyfrifedig i'n cyrff archwiliedig ar gyfer y flwyddyn nesaf.

73 Ym mis Medi a mis Hydref 2023, gwnaethom ymgynghori â'r holl gyrff archwiliedig a grwpiau cynrychioliadol ar ein graddfeydd ffioedd arfaethedig ar gyfer 2024–25 a wnaeth lwfans ar gyfer cynnydd amcangyfrifedig o 6.4% yn ein cyfraddau ffioedd.

74 Derbyniwyd 18 o ymatebion a ddywedodd wrthym:

- fod cyrff archwiliedig yn parhau i groesawu darpariaeth yr NFI heb unrhyw gost;
- er ei fod yn cydnabod y pwysau chwyddiant a wynebir gan gyrff Archwilio Cymru nodwyd eu bod yn wynebu pwysau tebyg heb unrhyw gynnydd cysylltiedig mewn cyllid;
- dywedasant hefyd fod y cynnydd hwn yn ychwanegol at y cynnydd mwy sylweddol yr oeddent yn ei wynebu eleni mewn ymateb i'r safon archwilio newydd ISA315;
- er bod rhai cyrff yn teimlo bod y cynnydd yn rhesymol, roedd rhai yn cwestiynu sut y gosodwyd ffioedd ar lefel leol ac a fyddai unrhyw ostyngiad mewn ffioedd ar ôl gweithredu'r safon newydd; a
- bod y Cynghorau Tref a Chymuned a ymatebodd yn teimlo bod y cynnydd yn rhesymol yn sgil pwysau chwyddiant a chostau gwasanaethau proffesiynol eraill.

75 Mae'r Bwrdd wedi myfyrio ar yr ymatebion hyn ac wedi ymateb drwy gynnal y cynnydd arfaethedig ar gyfartaledd o 6.4% er gwaethaf gofyniad newydd i ariannu costau cynyddol Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

76 Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda chyrff archwiliedig i liniaru effaith y cynnydd ar eu ffi archwilio.

## Buddsoddiad cyfalaf

77 Nodir ein blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf ar gyfer 2023–24 hyd 2027–28 yn **Arddangosyn 3**.

78 Mae buddsoddiad cyfalaf wedi ei dargedu at brosiectau a fydd yn cyflawni effeithlonrwydd ac arbedion yn y dyfodol, yn sicrhau bod ein darpariaeth TGCh yn gwneud y defnydd gorau o'r dechnoleg sydd ar gael a'n bod yn manteisio ar yr atebion digidol sydd ar gael wrth gyflawni ein gwaith.

79 Tybiodd ein Hamcangyfrifon blaenorol y byddai ein gofyniad am fuddsoddiad cyfalaf yn dechrau cynyddu o 2024–25 wrth inni weithio tuag at gyflawni ein huchelgeisiau digidol. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r duedd o ran buddsoddiad TGCh wedi symud oddi wrth wariant ymlaen llaw i drefniadau trwydded neu wasanaeth blynyddol, ac o'r herwydd, nid ydym bellach yn rhagweld y bydd angen buddsoddiad cyfalaf mor sylweddol.

**Arddangosyn 3: buddsoddiad cyfalaf**

| | 2023-24 £'000 | 2024-25 £'000 | 2025-26 £'000 | 2026-27 £'000 | 2027-28 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhaglen Newid | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 |
| Strategaeth TGCh | 110 | 110 | 110 | 110 | 110 |
| **Cyfanswm** | **310** | **310** | **310** | **310** | **310** |

## Ein Rhaglen Newid

80 Mae gennym raglen newid sefydledig yn Archwilio Cymru i ddarparu rheolaeth effeithiol ar gyfer prosiectau newid sydd ar ddod. Bydd angen buddsoddiad cyfalaf ar rai o'r rhain fel y nodir isod.

### Gweithleoedd y dyfodol

81 Hwn a fu ein prosiect newid mwyaf arwyddocaol hyd yn hyn. Yn 2022–23, gwnaethom gwblhau'r broses o adleoli ein swyddfa yng Nghaerdydd i safleoedd newydd llai. Yn ystod 2023–24, rydym wedi adleoli ein swyddfa yng ngogledd Cymru o Abergele i swyddfa Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno. Hyd yn hyn, rydym wedi arbed dros £200,000 o'r symudiadau hyn.

82 Yn ystod 2024–25, byddwn yn adolygu ein hanghenion llety yn ein swyddfeydd ym Mhenlle'r-gaer ac mae ein rhaglen newid yn cynnwys cyllid a fydd yn ein galluogi i sicrhau bod y safle hwn yn parhau i fodloni ein gofynion gweithle sy'n dod i'r amlwg.

### Ein Strategaeth Ddigidol

83 Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn offer digidol er mwyn sicrhau y gallwn gyflawni ein gwaith mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Mae'r cynllun buddsoddi ar gyfer 2024–25 yn cynnwys:

- cwblhau'r broses o ddatblygu meddalwedd platfform archwilio newydd ar gyfer ein gwaith archwilio Ariannol a Pherfformiad;
- datblygiad parhaus ein gwefan allanol, i fodloni ein gofynion rhanddeiliaid yn well; a
- gwelliannau i systemau gwybodaeth rheoli.

84 Fel y nodir uchod, rydym wedi lleihau'r cyllid a ragwelwyd yn flaenorol ar gyfer y gwaith hwn gan fod y diwydiant yn symud tuag at refeniw yn hytrach na chyllid cyfalaf. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen rhywfaint o fuddsoddiad ymlaen llaw ar gyfer y prosiectau a nodir uchod.

### Ein Strategaeth TGCh

85 Rydym wedi sefydlu rhaglen dreigl ar gyfer adnewyddu offer cyfrifiadur personol/technoleg gwybodaeth er mwyn sicrhau parhad busnes a bod offer yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn ddibynadwy.

## Symudiadau mewn cyfalaf gweithio

86 Gwneir addasiad i'n Hamcangyfrif adnoddau i ganiatáu symudiadau mewn cyfalaf gweithio ar ddiwedd y flwyddyn. Ni ellir amcangyfrif y symudiadau hyn yn gywir ond byddant yn cynnwys:

- cynyddu neu leihau gwerth dyledwyr ar ddiwedd y flwyddyn.
- cynnydd neu ostyngiadau mewn credydwyr ar ddiwedd y flwyddyn.
- cynnydd neu ostyngiadau mewn darpariaethau ar ddiwedd y flwyddyn.

87 Ar gyfer y rhan fwyaf o flynyddoedd, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn caniatáu tynnu £200,000 tybiannol o arian ychwanegol er mwyn caniatáu i'r symudiadau hyn, gydag unrhyw arian nas defnyddiwyd, gael eu dychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

88 Ar gyfer 2023–24, cynyddwyd y cais hwn gan ein bod yn ymwybodol y byddem yn rhyddhau darpariaeth sylweddol yn ystod 2023–24 ar gyfer y setliad dadfeiliad ar ein swyddfeydd ar Heol y Gadeirlan.

89 Ar gyfer 2024–25, rydym wedi lleihau hwn i £200,000 i ganiatáu eitem ddigwyddiadol arferol ar gyfer symudiadau ar ddiwedd y flwyddyn.

# Ein galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru 2024-25

## Sut yr ydym yn defnyddio Cronfa Gyfunol Cymru

90 Ariennir oddeutu 34% o gyfanswm ein cyllideb o Gronfa Gyfunol Cymru ac mae'r balans yn cael ei ariannu o'r ffioedd a godir gennym ar gyrff archwiliedig (ein hadnoddau sy'n cronni).

91 Rydym yn defnyddio'r cyllid a ddarperir yn uniongyrchol gan Gronfa Gyfunol Cymru at y prif ddibenion canlynol:

- cyllid er budd ehangach y sector cyhoeddus:
  - ein rhaglen hyfforddiant ariannol Cymru gyfan.
  - ein Cyfnewidfa Arfer Da; a
  - mynediad am ddim i'r Fenter Twyll Genedlaethol i'r holl gyrff sy'n cymryd rhan.
- ariannu gwaith archwilio nad yw'n cael ei ariannu gan incwm ffioedd – mae hyn yn cynnwys ein harchwiliadau a'n hastudiaethau gwerth Cenedlaethol a'n rhaglen astudiaethau o Lywodraeth Leol.
- cyfrannu at gostau rhedeg Archwilio Cymru.

92 Hefyd, mae Cronfa Gyfunol Cymru yn ariannu'r holl fuddsoddiad cyfalaf yn uniongyrchol.

## Cyllid er budd ehangach y sector cyhoeddus

### Datblygu sgiliau ariannol Cymru gyfan

93 Defnyddir cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru i ddarparu cefnogaeth barhaus i'n rhaglen lwyddiannus gan ddarparu cyfleoedd i raddedigion a phrentisiaid i fyfyrwyr o bob cwr o Gymru.

94 Ar hyn o bryd, rydym yn cyflogi oddeutu 60 o hyfforddeion a phrentisiaid, gan ddarparu cyfleoedd hyfforddi o'r radd flaenaf iddynt a sicrhau cyflenwad o weithwyr cyllid proffesiynol yn y dyfodol ar gyfer sector cyhoeddus Cymru.

95 Rydym yn defnyddio cyllid Cronfa Gyfunol Cymru i wneud y canlynol:

- darparu cyfleoedd secondio i'n hyfforddeion graddedig mewn cyrff sector cyhoeddus eraill yng Nghymru;
- targedu ein proses recriwtio i wella amrywiaeth gymdeithasol a chynhwysiant yn ein gweithlu a'r proffesiwn cyllid ehangach yng Nghymru;
- ariannu cynhadledd flynyddol ar gyfer hyfforddeion y sector cyhoeddus ledled Cymru, sy'n hybu gwerth a phwysigrwydd gyrfa ym maes cyllid cyhoeddus;
- cefnogi'r costau hyfforddi ar gyfer ein rhaglen hyfforddi graddedigion, gan leihau costau a fyddai fel arall yn cael eu hadennill o ffioedd.

96 Yn 2023–24, gwnaethom sicrhau cynnydd o £50,000 yn swm y cyllid ar gyfer y rhaglen hon i adlewyrchu costau uwch yr hyfforddiant a ddisgwylir i'n hyfforddeion graddedig. Yn y pen draw, roedd y cynnydd yn llai na'r disgwyl ac felly bydd lleihad o £30,000 yn yr elfen hon o'n galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru yn 2024–25 i adlewyrchu'r arbediad hwn. Mae £50,000 ychwanegol wedi ei gynnwys i ariannu codiadau cyflog i staff a gefnogir gan y cynllun hwn.

97 Fel y nodir eisoes, rydym hefyd yn gofyn am £220,000 ychwanegol drwy'r amcangyfrif hwn i ehangu'r cynllun hwn ymhellach. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn ein galluogi i gynyddu nifer y graddedigion a'r prentisiaid yr ydym yn eu recriwtio bob blwyddyn, gan ddarparu llif talent yn fewnol ac ar gyfer y sector cyhoeddus ehangach, yn ogystal ag ariannu mwy o waith allgymorth i gefnogi rhagor o symudedd cymdeithasol.

## Cyfnewidfa Arfer Da

98 Rydym yn defnyddio cyllid a ddarperir gan Gronfa Gyfunol Cymru i redeg ein rhaglen Arfer Da uchel ei pharch yn rhad ac am ddim i gyrff cyhoeddus a'r trydydd sector ledled Cymru.

99 Yn dilyn y pandemig, ym mis Hydref 2022, gwnaethom adfer ein digwyddiadau wyneb yn wyneb gan ganolbwyntio ar thema Tlodi yng Nghymru. Yn ystod 2023, rydym wedi canolbwyntio ar:

- sut mae awdurdodau lleol yn gweithio i ddatblygu ac ehangu mentrau cymdeithasol i helpu llywodraeth leol i ddarparu mwy o wasanaethau a lleihau'r galw.
- sut mae awdurdodau lleol yn creu'r cyflyrau sydd eu hangen i drawsnewid ffyrdd o weithio a grymuso cymunedau i ffynnu mor annibynnol â phosibl.
- ysbrydoli'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector i groesawu amrywiaeth ddiwylliannol y Gymru fodern a'r manteision o weithio y tu hwnt i gydymffurfio ac i ragoriaeth.

100 Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn edrych ar feysydd megis:

- sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn trosi nodau strategol strategaethau digidol yn gamau ymarferol sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau bob dydd.
- gweithio mewn partneriaeth i wella llesiant.
- rhannu enghreifftiau o ddulliau arloesol o reoli gofal heb ei drefnu yng Nghymru
- sut y gall gwasanaethau cyhoeddus hyrwyddo diwylliant o uniondeb.
- rhannu enghreifftiau o ddulliau arloesol ar gyfer teithio llesol ledled Cymru a thu hwnt.

101 Ceir manylion llawn ein digwyddiadau sydd ar ddod ar ein gwefan.

102 Ar gyfer 2024–25, rydym yn cynyddu'r cyllid ar gyfer y gwaith archwilio hwn yn unol â'r cynnydd arfaethedig mewn cyfraddau ffioedd.

## Y Fenter Twyll Genedlaethol

103 Ers 2015, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cefnogi'r egwyddor o gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer pob corff cyhoeddus yng Nghymru heb unrhyw gost i'r cyrff hynny. Nododd ein hadroddiad dwyflynyddol diwethaf arbedion a gordaliadau posibl o £6.5 miliwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru, sy'n cynyddu'r arbedion cronnol i £49.4 miliwn ers 1996.

104 Heb y cyllid hwn, byddai angen trosglwyddo'r costau o gyflawni'r gwaith hwn yn uniongyrchol i'r cyrff sy'n cymryd rhan fel ffioedd ychwanegol, a allai arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y cyrff sy'n dewis cymryd rhan.

105 Mae cyllid ar gyfer ein gwaith o ran y Fenter Twyll Genedlaethol yn destun codiadau/gostyngiadau bob yn ail flwyddyn i dalu costau dwyflynyddol Swyddfa'r Cabinet ddwywaith am wirio data. Bydd y flwyddyn 2024–25 yn gweld cynnydd o £130,000 o'i chymharu â 2023–24.

106 Nodir dadansoddiad llawn o'r cyllid a ddyrennir ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn **Arddangosyn 4**.

**Arddangosyn 4 – Dadansoddiad o gostau y Fenter Twyll Genedlaethol**

| | 2024-25 £'000 | 2023-24 £'000 | Newid £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwiriwr Ceisiadau y Fenter Twyll Genedlaethol (App Check) | 50 | 50 | - |
| Paru data ychwanegol | 45 | 45 | - |
| Cost gwaith archwilio (ar sail cyfraddau ffioedd ac amser staff) | 55 | 52 | 3 |
| Taliadau i Swyddfa'r Cabinet (bob yn ail flwyddyn) | 130 | - | 130 |
| **Cyfanswm** | **280** | **147** | **133** |

## Gwaith archwilio nas ariennir trwy ffioedd

### Archwiliadau ac Astudiaethau Gwerth Cenedlaethol ac Astudiaethau o Lywodraeth Leol

107 Mae rhaglen archwiliadau gwerth am arian cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi cymorth i waith craffu y Senedd. Adroddir yr astudiaethau hyn i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd ac fe'u disgrifir yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023–24.

108 Defnyddir y cyllid hwn hefyd i helpu i gyflawni dyletswyddau yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer cyrff perthnasol y llywodraeth ganolog.

109 Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn un o ddulliau allweddol y Senedd o ddwyn sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus i gyfrif. Felly, ein nod yw sicrhau ein bod yn cefnogi'r Pwyllgor yn ei waith. Rydym hefyd yn cefnogi gwaith Pwyllgorau eraill y Senedd yn fwyfwy.

110 Rydym hefyd yn defnyddio cyllid Cronfa Gyfunol Cymru i wneud y canlynol:

- ymgymryd â darnau o waith i archwilio themâu sy'n deillio o'n gwaith cyfrifon; a
- cefnogi ein hymateb i faterion a ddygir i'n sylw gan aelodau o'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig.

111 Ar gyfer 2024–25, rydym yn cynnig cynyddu'r cyllid ar gyfer y gwaith archwilio hwn yn unol â'r cynnydd arfaethedig mewn cyfraddau ffioedd.

112 Hefyd, ar gyfer 2024–25, rydym wedi nodi £41,000 o gostau eraill sy'n gysylltiedig ag estyniad arfaethedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gyrff ychwanegol y bydd gan yr Archwilydd Cyffredinol ddyletswydd i adrodd arnynt[3]. Rydym yn rhagweld y byddai'r gost flynyddol sylfaenol hon yn digwydd bob blwyddyn yn ystod cylch adrodd 2025–2030, a godir fel y bo'n briodol yn unol â'n Hamcangyfrif ehangach.

3 Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y bwriad o estyn y Ddeddf i wyth corff ychwanegol. Mae'r rhain bellach yn cynnwys dau gorff nad Archwilydd Cyffredinol Cymru yw'r archwilydd allanol ar eu cyfer (Trafnidiaeth Cymru a'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol) a thri (Cymwysterau yng Nghymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, ac Awdurdod Cyllid Cymru), oherwydd nad oes darpariaeth mewn deddfwriaeth ar gyfer gwaith cwblhau trefniadau priodol, nid oes gennym drefniadau archwilio perfformiad lleol i ystyried gwaith ymgorffori o dan y Ddeddf. Y tri arall yw cyrff y GIG, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

113 Mae’r costau a nodir ar gyfer 2024–25 yn adlewyrchu ein rhagdybiaeth y byddai’r cyrff newydd yn ddarostyngedig i’r ddyletswydd llesiant o 1 Ebrill 2024 ac y disgwylir iddynt bennu eu hamcanion llesiant o fewn 12 mis (erbyn mis Mawrth 2025).

114 Byddai gweddill y gwaith i gyflawni dyletswyddau archwilio yn y cyrff ychwanegol yn cael ei ledaenu ar draws gweddill y cylch adrodd a’i raglennu ochr yn ochr â gwaith arall sy’n ofynnol o dan y Ddeddf.

115 Mae’r rheoliadau i gefnogi estyniad y Ddeddf, ac felly’r amserlen ar gyfer cychwyn ei gofynion eto i’w cwblhau gan Lywodraeth Cymru.

116 Heb ystyried costau pontio, nid yw’r ffigurau’n rhoi cyfrif am waith y bydd yn rhaid i ni ei gyflawni yn y tri chorff GIG ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig dod â nhw o dan y Ddeddf. Byddai gwaith archwilio yn y cyrff hynny yn cael ei gefnogi o dan eu trefniadau ariannu presennol ar gyfer gwaith archwilio perfformiad lleol. Bydd hyn yn golygu ail-lunio neu ddisodli gwaith arall. Er bod yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfforddus â’r dull hwn y tro hwn, ni all fod felly bob amser. Bob tro y caiff dyletswyddau newydd eu hamsugno drwy ddisodli gwaith arall, mae’n cyfyngu ar annibyniaeth a hyblygrwydd rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol a’r gallu i fynd ar drywydd risgiau allweddol.

117 Yn ein hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2022, nodwyd y byddem yn croesawu trafodaeth bellach am gyfrifoldebau’r Archwilydd Cyffredinol o dan y Ddeddf yn rhan o werthusiad ôl-ddeddfwriaethol. Gallai hyn ein galluogi i optimeiddio cymesuredd, darbodaeth ac effaith ein dull, yn enwedig yng nghyd-destun nifer fwy o gyrff sy’n ddarostyngedig i’r ddyletswydd llesiant. A nodwn y gellid creu cyrff newydd eraill y byddai’r Ddeddf o bosibl yn gymwys iddynt yn y dyfodol, megis corff goruchwylio arfaethedig ar gyfer diogelwch tomenni glo.

## Gwaith Archwilio Perfformiad Lleol

118 Fel y nodir yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2023–24, roeddem wedi bwriadu symud oddeutu traean o'r cyllid (£1.26 miliwn) ar gyfer peth o'n gwaith archwilio perfformiad mewn Llywodraeth Leol ac Iechyd o gyllid sy'n deillio o ffioedd i gyllid Cronfa Gyfunol Cymru.

119 Yn y pen draw, cyn cyflwyno ein Hamcangyfrif ar gyfer 2023–24, ni allai Llywodraeth Cymru gadarnhau ei chefnogaeth dros wneud yr addasiadau angenrheidiol i gyllid awdurdodau lleol a chyrff iechyd i ddal y Gronfa Gyfunol Cymru yn ddiniwed. O ganlyniad, gofynnodd Pwyllgor Cyllid y Senedd i ni ohirio'r cynnig hwn tan ein Hamcangyfrif 2024–25.

120 Gwnaethom ystyried safbwyntiau cyrff archwiliedig, a fynegwyd yn ymarfer ymgynghori y llynedd, sy'n gwerthfawrogi'r mewnwelediad o'n gwaith archwilio lleol wrth ddeall manteision y cynigion am astudiaethau mwy thematig. Felly, roedd y newid arfaethedig a nodwyd yn ein hymarfer ymgynghori yn llai na'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol, sef oddeutu £850,000.

121 Yn anffodus, roedd Llywodraeth Cymru'n dal yn methu â chadarnhau ei chefnogaeth i'r cynnig hwn o hyd oherwydd pwysau eraill ac felly rydym wedi penderfynu peidio â mynd ar drywydd y newid arfaethedig.

## Cyfraniad at gostau rhedeg

122 Rydym yn defnyddio cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru i ariannu costau Swyddfa Archwilio Cymru na ellir eu codi'n rhesymol ar gyrff archwiliedig drwy ffioedd. Yn 2024–25, byddwn yn cyflawni lleihad o £70,000 yn y cyfraniad hwn fel y nodir yn **Arddangosyn 1** ar dudalen 4.

123 Mae cynnydd o £30,000 sy'n gysylltiedig â'r codiad cyflog arfaethedig wedi ei wrthbwyso gan ostyngiad o £100,000 yn y cyfraniad i gydraddoli costau teithio sy'n gysylltiedig â'r gostyngiad cyffredinol yn ein costau teithio.

# Ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig

124 Mae ein cynllun ariannol tymor canolig yn tybio, dros y tair blynedd nesaf, y bydd ein hadnoddau archwilio yn cael eu cynnal ar lefelau 2024–25 wrth inni geisio mynd i'r afael â'r ôl-groniad archwilio sydd wedi codi ers y pandemig.

125 Os gellir mynd i'r afael â'r ôl-groniad – ac mae hyn yn dibynnu ar ein gallu i recriwtio'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni hyn – yna o 2027–28, byddem yn disgwyl gweld gostyngiadau mewn costau staff ac incwm sy'n deillio o ffioedd i adlewyrchu ein 'cyflwr sefydlog'.

126 O ystyried yr ansicrwydd presennol, ni chynhwyswyd unrhyw ddarpariaeth ar gyfer cynnydd mewn prisiau a chyflogau yn y dyfodol.

**Arddangosyn 7: Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2024–25 hyd 2028–29**

| | 2024-25 £'000 | 2025-26 £'000 | 2026-27 £'000 | 2027-28 £'000 | 2028-29 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau staff | 22,312 | 22,537 | 22,537 | 21,372 | 21,372 |
| Safle | 731 | 731 | 731 | 731 | 731 |
| Teithio a Chynhaliaeth | 303 | 303 | 303 | 303 | 303 |
| Costau cylchol y Fenter Twyll Genedlaethol | 130 | 0 | 130 | 0 | 130 |
| Costau eraill | 3,149 | 3,149 | 3,149 | 3,149 | 3,149 |
| **Cyfanswm y gwariant** | **26,625** | **26,720** | **26,850** | **25,555** | **25,685** |
| Incwm sy'n deillio o Ffioedd Archwilio | 17,476 | 17,701 | 17,701 | 16,536 | 16,536 |
| Cyfanswm yr alwad ar Gronfa Gyfunol Cymru (Refeniw) | 9,149 | 9,019 | 9,149 | 9,019 | 9,149 |
| Cyfanswm yr alwad ar Gronfa Gyfunol Cymru (Cyfalaf) | 310 | 310 | 310 | 310 | 310 |

# Atodiadau

1 Cyllideb refeniw 2024–25

2 Cynllun Ffioedd 2024–25

# 1 Cyllideb refeniw 2024–25

| | Amcangyfrif Adnoddau 2024-25 £'000 | Arian Parod 2024-25 £'000 | Amcangyfrif Adnoddau 2023-24 £'000 | Arian Parod 2023-24 £'000 | Y Newid o'r Naill Flwyddyn i'r Llall (Adnoddau) £'000 | Y Newid o'r Naill Flwyddyn i'r Llall (Arian Parod) £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau staff | 23,444 | 23,444 | 21,041 | 21,041 | 2,403 | 2,403 |
| Rheoli swyddi gwag | (1,132) | (1,132) | (987) | (987) | (145) | (145) |
| Teithio a chynhaliaeth | 303 | 303 | 435 | 435 | (132) | (132) |
| Safle | 731 | 595 | 754 | 754 | (23) | (159) |
| TAW anadferadwy | 500 | 500 | 500 | 500 | - | - |
| TGCh | 664 | 664 | 699 | 699 | (35) | (35) |
| Llywodraethu Archwilio Cymru | 320 | 320 | 320 | 320 | - | - |
| Hyfforddiant allanol | 326 | 326 | 341 | 341 | (15) | (15) |
| Costau blynyddol y Fenter Twyll Genedlaethol | 95 | 95 | 95 | 95 | - | - |
| Dibrisiant a llog | 396 | - | 360 | - | 36 | - |
| Cyflenwadau a gwasanaethau eraill | 1,248 | 1,248 | 1,217 | 1,217 | 31 | 31 |
| Targed arbedion | (400) | (400) | (500) | (500) | 100 | 100 |
| Costau cylchol y Fenter Twyll Genedlaethol | 130 | 130 | - | - | 130 | 130 |
| **Cyfanswm costau** | **26,625** | **26,093** | **24,275** | **23,915** | **2,350** | **2,178** |

| | | Amcangyfrif Adnoddau 2024-25 £'000 | Arian Parod 2024-25 £'000 | Amcangyfrif Adnoddau 2023-24 £'000 | Arian Parod 2023-24 £'000 | Y Newid o'r Naill Flwyddyn i'r Llall (Adnoddau) £'000 | Y Newid o'r Naill Flwyddyn i'r Llall (Arian Parod) £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Incwm sy'n deillio o Ffioedd | Ffioedd Archwilio | (16,494) | (16,494) | (14,605) | (14,605) | (1,889) | (1,889) |
| | Cronfeydd Amaethyddol yr UE | - | - | (600) | (600) | 600 | 600 |
| | Ffioedd ardystio grantiau | (982) | (982) | (928) | (928) | (54) | (54) |
| | **CYFANSWM INCWM** | **(17,476)** | **(17,476)** | **(16,133)** | **(16,133)** | **(1,343)** | **(1,343)** |
| **Cyfalaf** | | **310** | **310** | **310** | **310** | **-** | **-** |
| **Symudiadau mewn cyfalaf gweithio**[4] | | | **200** | **-** | **550** | **-** | **(350)** |
| **Y cyfanswm i'w ariannu o Gronfa Gyfunol Cymru** | | **9,459** | **9,127** | **8,452** | **8,642** | **1,007** | **485** |

4 Ar gyfer 2023–24, roedd hyn yn cynnwys y setliad dadfeiliad disgwyliedig ar gyfer Heol y Gadeirlan

# 2 Cynllun Ffioedd 2024–25

# Cynllun Ffioedd 2024–25

Cynllun ffioedd yw hwn a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Gosodir y cynllun ffioedd hwn gerbron y Senedd o dan adran 24(4)(c) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Swyddfa Archwilio Cymru 2023



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



**Dr Kathryn Chamberlain**
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru

# Cynnwys


## Trosolwg

Cyflwyniad 35

Cyfraddau ffioedd a graddfeydd ffioedd 35

Codi ffioedd 40

## Atodiadau

Atodiad A – Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24 42

Atodiad B – Rhestr o'r deddfiadau y caiff ac mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd odanynt 44

Atodiad C – Graddfeydd Ffioedd 2024–25 46

# Cyflwyniad

## Cyfraddau ffioedd a graddfeydd ffioedd

1 Paratowyd y Cynllun Ffioedd hwn o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (y Ddeddf) (**Atodiad 1**). Ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Senedd, mae'r Cynllun Ffioedd yn darparu'r sail ar gyfer codi ffioedd.

### Cyfraddau ffioedd 2024–25

2 Fel y nodwyd yn ein hymgynghoriad ar ffioedd arfaethedig ym mis Medi 2023, mae angen i ni gydnabod pwysau costau byw ar ein staff ac rydym wedi gwneud darpariaeth ar gyfer codiadau cyflog yn unol â gweddill y sector cyhoeddus. Rydym hefyd wedi gorfod gwneud darpariaeth ar gyfer cynnydd yng nghyfraniadau cyflogwyr ar gyfer Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

3 Pan fo hynny'n bosibl, rydym wedi lliniaru pwysau chwyddiant drwy nodi arbedion ar gyllidebau nad ydynt ar gyflogau megis llety a theithio, gan nodi arbedion o dros £2 miliwn dros y pum mlynedd nesaf.

4 Rydym yn parhau i wneud buddsoddiad sylweddol mewn ansawdd archwilio er mwyn ymateb i adolygiadau[5] o archwilio a safonau proffesiynol newydd diweddar ledled y DU. Mae'r adolygiadau amrywiol hyn yn adlewyrchu disgwyliadau cynyddol ynghylch archwilio ac ansawdd yr archwiliad hwnnw.

5 Mae cymryd y ffactorau hyn gyda'i gilydd yn golygu bod angen cynnydd cyfartalog o 6.4% yn ein cyfraddau ffioedd yn 2024–25.

6 Nodir ein cyfraddau ffioedd arfaethedig ar gyfer 2024–25 yn **Arddangosyn 1**.

5 Adolygiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd; Adolygiad Kingman; ac Adolygiad Brydon

**Arddangosyn 1: cyfraddau ffioedd arfaethedig 2024–25**

| Gradd | Cyfradd (£ fesul awr) 2024-25 | Cyfradd (£ fesul awr) 2023-24 |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr Archwilio | 179 | 168 |
| Rheolwr Archwilio | 137 | 129 |
| Arweinydd Archwilio | 112 | 106 |
| Uwch-archwilydd | 91 | 85 |
| Archwilydd | 64 | 61 |
| Hyfforddai graddedig | 59 | 55 |
| Prentis | 46 | 40 |

7 Rydym yn bwriadu parhau i ddarparu mynediad i’r Fenter Twyll Genedlaethol am ddim.

8 Mae’r Cynllun Ffioedd hwn yn nodi:

- y deddfiadau yr ydym yn codi ffioedd archwilio odanynt.
- y trefniadau ar gyfer pennu’r ffioedd hynny, sy’n cynnwys naill ai:
  - graddfeydd ffioedd sy’n nodi ystodau ffioedd ar gyfer meysydd penodol o waith archwilio mewn llywodraeth leol; neu
  - gyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith nas cwmpesir gan raddfeydd ffioedd.

9 Yn fras, ariennir 66% o’n gwariant drwy ffioedd a godir ar gyrff archwiliedig. Darperir y 34% sy’n weddill o Gronfa Gyfunol Cymru drwy’r cynnig cyllidebol a basiwyd gan y Senedd.

10 Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol **na chaiff** y ffioedd a godir gennym ar gorff **fod yn fwy** na’r gost lawn o weithredu yn y corff hwnnw y swyddogaeth y mae’r ffi yn ymwneud â hi. Rydym yn pennu ein ffioedd archwilio yn seiliedig ar ein sylfaen gostau amcangyfrifedig, y cymysgedd sgiliau amcangyfrifedig ar gyfer gwaith archwilio ac amcangyfrif o nifer y diwrnodau sydd eu hangen i gwblhau’r gwaith. Nid ydym ac ni chawn wneud elw ar ein gwaith. Mae ein cyfraddau ffioedd wedi eu pennu ar lefel er mwyn adennill y gost lawn amcangyfrifedig, ond dim mwy.

11 Ceir tensiwn rhwng rhoi ffi ymlaen llaw i gyrff archwiliedig am y gwaith sydd i'w wneud ar archwiliadau penodol a bod â threfn ddigon hyblyg sy'n cydnabod bod amrywiannau'n anochel. Rydym yn pennu ein ffioedd archwilio yn seiliedig ar ein gwariant amcangyfrifedig, y cymysgedd sgiliau amcangyfrifedig ac amcangyfrif o nifer y diwrnodau sydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Pan fo'r gwaith gofynnol yn sylweddol uwch na'r hyn a amcangyfrifwyd yn wreiddiol, oherwydd cymhlethdodau a gafwyd yn ystod yr archwiliad, cawn godi ffi uwch, fel y caniateir gan ddeddfwriaeth.

12 Aethom y tu hwnt i'r gofynion ymgynghori statudol ar ffioedd ac, ym mis Medi 2023, gwnaethom ymgynghori â'r holl gyrff a archwiliwyd a rhanddeiliaid eraill ynghylch ein cyfraddau ffioedd a'n graddfeydd ffioedd arfaethedig ar gyfer 2024–25.

13 Derbyniwyd 18 o ymatebion a ddywedodd wrthym:

- fod cyrff archwiliedig yn parhau i groesawu darpariaeth yr NFI heb unrhyw gost;
- er ei fod yn cydnabod y pwysau chwyddiant a wynebir gan gyrff Archwilio Cymru nodwyd eu bod yn wynebu pwysau tebyg heb unrhyw gynnydd cysylltiedig mewn cyllid;
- dywedasant hefyd fod y cynnydd hwn yn ychwanegol at y cynnydd mwy sylweddol yr oeddent yn ei wynebu eleni mewn ymateb i'r safon archwilio newydd ISA315;
- er bod rhai cyrff yn teimlo bod y cynnydd yn rhesymol, roedd rhai yn cwestiynu sut y gosodwyd ffioedd ar lefel leol ac a fyddai unrhyw ostyngiad mewn ffioedd ar ôl gweithredu'r safon newydd; a
- bod y Cynghorau Tref a Chymuned a ymatebodd yn teimlo bod y cynnydd yn rhesymol yn sgil pwysau chwyddiant a chostau gwasanaethau proffesiynol eraill.

14 Mae'r Bwrdd wedi myfyrio ar yr ymatebion hyn ac wedi ymateb drwy gynnal y cynnydd arfaethedig ar gyfartaledd o 6.4% er gwaethaf gofyniad newydd i ariannu costau cynyddol Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Gwnaethom hyn drwy gynyddu ein targed arbedion o'r hyn a dybiwyd pan gafodd yr ymgynghoriad ei baratoi.

15 Byddwn yn gweithio'n agos gyda chyrff archwiliedig i geisio lliniaru effaith y cynnydd hwn ar eu ffi archwilio.

## Graddfeydd Ffioedd Llywodraeth Leol 2024–25

16 Ffordd o reoleiddio cost archwiliadau cyhoeddus, drwy bennu terfynau a thrwy adolygu ffioedd gan eu cymharu â'r terfynau hynny, yw graddfeydd ffioedd. Mae graddfeydd ffioedd hefyd yn darparu fframwaith fel y gall archwilwyr asesu faint o waith archwilio blynyddol sy'n angenrheidiol a'r ffi i'w chodi am y gwaith hwnnw mewn corff archwiliedig penodol.

17 Darperir graddfeydd ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon ariannol 2023–24, ynghyd â gwaith archwilio perfformiad i'w wneud yn 2024–25, yn **Atodiad C** mewn cysylltiad ag awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, comisiynwyr heddlu a throseddu, prif gwnstabliaid, cynghorau tref a chymuned a chronfeydd pensiwn llywodraeth leol.

18 Darperir graddfa ffioedd ar wahân mewn cysylltiad â'r Fenter Twyll Genedlaethol.

19 Mae archwiliad perfformiad yn cynnwys archwiliadau datblygu cynaliadwy, archwiliadau gwybodaeth gwella, asesiadau gwella ac archwiliadau arbennig. Nid yw'r holl swyddogaethau hyn yn berthnasol i bob math o gorff archwiliedig.

20 Cyfrifir ffioedd archwilio amcangyfrifedig cyrff archwiliedig nas cwmpesir gan y gofyniad statudol am raddfa ffioedd yn yr un modd â'r rhai a gwmpesir ganddo – hynny yw, drwy gymhwyso'r cyfraddau ffioedd a gyhoeddir yn y Cynllun Ffioedd hwn i'r cymysgedd tîm amcangyfrifedig ac amcangyfrif o nifer yr oriau sydd eu hangen i gyflawni'r archwiliad.

21 Mae archwilwyr yn ymgymryd â gwaith ardystio grantiau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae swm y gwaith ardystio grantiau a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn dibynnu ar nifer y cynlluniau sy'n ddarostyngedig i archwiliad a nifer y cyrff archwiliedig sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Cyfrifir ffioedd am y gwaith hwn gan ddefnyddio'r cyfraddau ffioedd a chan adlewyrchu maint, cymhlethdod neu unrhyw faterion penodol mewn cysylltiad â'r grant sydd dan sylw.

22 Mae'r cyfraddau ffioedd yn berthnasol i'r holl waith archwilio ac eithrio i'r graddau pan fo graddfeydd ffioedd, pan fo hynny'n berthnasol, yn rheoleiddio'r swm sydd i'w godi (neu yn achos gwaith a wneir o dan gytundebau a wnaed cyn 1 Ebrill 2014, mae'r cyfraddau mewn termau y cytunwyd arnynt). Os yw'n ymddangos wedyn fod y gwaith sy'n gysylltiedig ag archwiliad penodol yn wahanol iawn i'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, cawn godi ffi sy'n wahanol i'r hyn a hysbyswyd yn wreiddiol.

23 Yn achos darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol eraill a ddarperir, codir ffioedd yn unol â'r cytundeb perthnasol, ar yr amod bod symiau o'r fath yn cael eu capio ar y gost lawn o ddarparu'r gwasanaeth.

24 Er mwyn cyflawni cyfrifoldebau statudol, weithiau, mae angen i archwilwyr wneud gwaith sy'n mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau cyffredinol. Gall gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er budd y cyhoedd, archwiliad eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith ychwanegol mewn cysylltiad â chwestiynau a gwrthwynebiad gan etholwyr, ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd taliadau am y math hwn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith sydd ei angen ac fe'u cyfrifir trwy gymhwyso'r cyfraddau ffioedd a gyhoeddir yn y Cynllun Ffioedd hwn i gymysgedd y tîm a nifer yr oriau sydd eu hangen i wneud y gwaith.

25 Pan fo angen cymorth arbenigol neu gyngor cyfreithiol neu gyngor proffesiynol arall, codir tâl ar gyrff archwiliedig, sy'n cael ei ychwanegu at gost ein staff archwilio.

## Gweithredu Safon Ryngwladol ar Archwilio 315

26 Fel y nodir yn ein Cynllun Ffioedd ar gyfer 2023–24, daeth ein harchwiliadau ar gyfer cyfrifon i ben ar 31 Mawrth 2023 a bydd y blynyddoedd dilynol yn cael eu cynnal o dan safon archwilio ddiwygiedig (Safon Ryngwladol ar Archwilio 315 – Nodi ac Asesu Risgiau Camddatgan Perthnasol). Mae'r safon ddiwygiedig wedi cael effeithiau sylweddol a phellgyrhaeddol ar y modd y mae archwilwyr yn cynnal asesiadau risg archwilio ac felly ar yr archwilio cyffredinol.

27 Bu cynnydd o 10% yn ein ffioedd archwilio ar gyfartaledd, y tu hwnt i'n cynnydd mewn cyfraddau ffioedd, er mwyn darparu ar gyfer y gymysgedd sgiliau cyfoethocach sy'n gysylltiedig â'r gofynion newydd hyn.

28 Rydym yn dal i werthuso effaith y dull newydd hwn ar waith archwilio 2022–23. Ni fydd y gwerthusiad hwn yn cael ei gwblhau tan wanwyn 2024. Byddwn yn ystyried hyn wrth bennu ffioedd ar gyfer cyrff unigol ond at ddibenion ein graddfeydd ffioedd, ni chaniatawyd newid yn 2024–25.

## Gwaith archwilio perfformiad lleol

29 Trafododd ein hymgynghoriad y posibilrwydd o newid elfen gyllid ar gyfer gwaith perfformiad lleol mewn 22 prif gyngor a saith bwrdd iechyd i hwyluso'r gwaith o ddarparu adolygiadau mwy thematig a thraws-sector.

30 Dywedodd ein hymarfer ymgynghori wrthym nad oedd gan gyrff archwiliedig safbwyntiau cryf ar y cynnig hwn ond eu bod yn gwerthfawrogi ein gwaith archwilio perfformiad lleol.

31 Fodd bynnag, nid oedd Llywodraeth Cymru yn gallu cefnogi'r cynnig hwn mewn pryd ar gyfer ein Hamcangyfrif ar gyfer 2024–25 ac felly rydym wedi penderfynu peidio â mynd ar drywydd y cynnig ymhellach.

32 Mae'r graddfeydd ffioedd ar gyfer ein gwaith perfformiad lleol mewn awdurdodau unedol yn y cynllun ffioedd hwn bellach yn eithrio'r newid hwn.

## Codi ffioedd

33 Bydd Cyfarwyddwr Ymgysylltu pob corff yn esbonio'r cymysgedd sgiliau sydd ei angen ar gyfer yr archwiliad a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y ffi gyffredinol. Cytunir ar drefniadau codi tâl gyda chyrff archwiliedig, a gallent gwmpasu taliadau untro, cyfnodol, rheolaidd neu flynyddol, fel y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau.

34 Disgwylir i gyrff archwiliedig dalu ein hanfonebau o fewn eu targed perfformiad ar gyfer taliadau credydwyr, sef deng niwrnod fel arfer. Cawn godi tâl am y costau gweinyddol a ysgwyddir wrth fynd ar drywydd taliadau hwyr.

35 Os bydd angen hynny ar gyrff archwiliedig, dylid codi archeb brynu am y ffi archwilio y cytunwyd arni cyn anfon anfonebau.

36 Ar ôl cwblhau aseiniadau archwilio, byddwn yn asesu'r costau gwirioneddol a ysgwyddwyd wrth ymgymryd â'r aseiniad o'u cymharu â'r ffi a godir. Byddwn yn ad-dalu unrhyw ffi ormodol sydd uwchben y gost ac, i'r gwrthwyneb, cawn godi costau ychwanegol pan fo'r ffi yn rhy isel. Byddwn yn prosesu ad-daliadau a thaliadau ychwanegol mewn modd sy'n ceisio lleihau costau gweinyddol, megis drwy wrthbwyso ffioedd yn erbyn ffioedd yn y dyfodol neu ffioedd am agweddau eraill ar weithgarwch archwilio.

# Atodiadau

A Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24

B Rhestr o'r deddfiadau y caiff ac mae'n rhaid i Archwilio Cymru godi ffioedd odanynt

C Graddfeydd Ffioedd 2024–25

# A Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24

(1) Rhaid i SAC baratoi cynllun sy'n ymwneud â chodi ffioedd gan SAC.

(2) Rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol:

- (a) rhestr o'r deddfiadau y caiff SAC godi ffi odanynt;
- (b) pan fo'r deddfiadau hynny'n gwneud darpariaeth i SAC ragnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, y raddfa honno neu'r graddfeydd hynny;
- (c) pan fo'r deddfiadau hynny'n gwneud darpariaeth i SAC ragnodi swm i'w godi, y swm hwnnw;
- (d) pan nad oes darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, na rhagnodi swm, y modd y bydd SAC yn cyfrifo'r ffi a godir.

(3) Caiff y cynllun wneud y canlynol ymysg pethau eraill:

- (a) cynnwys darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthau ar achosion gwahanol; a
- (b) darparu ar gyfer adegau a'r modd y bydd taliadau yn cael eu gwneud.

(4) O ran y cynllun:

- (a) rhaid i SAC ei adolygu o leiaf unwaith mewn blwyddyn galendr;
- (b) caiff SAC ei ddiwygio neu ei ail-wneud ar unrhyw adeg; a
- (c) rhaid i SAC ei osod (a gosod unrhyw ddiwygiad iddo) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol[[6]].

6 Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn cyfeirio at y 'Cynulliad Cenedlaethol' er gwaethaf y newid enw i 'Y Senedd/The Welsh Parliament'.

(5) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd o dan:

(a) adran 64F o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ffioedd am baru data); neu

(b) adran 27A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (pŵer Gweinidogion Cymru i ragnodi graddfa ffioedd), i gael effaith yn lle graddfa neu raddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan SAC, rhaid i SAC ddiwygio'r cynllun i gynnwys y raddfa neu'r graddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru yn lle'r rhai a ragnodwyd gan SAC.

(6) Nid oes rhaid cael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol os mai diwygiad a wneir yn unol ag is-adran (5) yw'r unig ddiwygiad i gynllun.

(7) Bydd y cynllun yn cael effaith pan fydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol neu, yn achos diwygiad a wneir yn unol ag is-adran (5), unwaith y bydd wedi cael ei osod gerbron y Cynulliad.

(8) Rhaid i SAC gyhoeddi'r cynllun (ac unrhyw ddiwygiad iddo) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi iddo gael effaith.

# B Rhestr o'r deddfiadau y caiff ac mae'n rhaid i Archwilio Cymru godi ffioedd odanynt

| Natur y gwaith | Deddfiadau |
|---|---|
| **Caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am y gweithgareddau canlynol** | |
| Archwiliad o gyfrifon gan yr Archwilydd Cyffredinol (ac eithrio cyfrifon llywodraeth leol). | Adran 23(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Astudiaethau gwerth am arian a gynhelir drwy gytundeb (ac eithrio sefydliadau addysgol a chyrff llywodraeth leol – gweler isod). | Adran 23(3)(a), (b) ac (c) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Archwiliad, ardystiad neu adroddiad o dan adran 31 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 mewn cysylltiad â Datganiad Treth Awdurdod Cyllid Cymru. | Adran 23 (3)(ba) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2013 |
| Archwiliad o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2) (archwiliadau o gyrff cyhoeddus at ddibenion asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy). | Adran 23(3)(ca) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Unrhyw swyddogaethau sydd gan awdurdod perthnasol a arferir gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol ac a gyflawnir drwy gytundeb, ac unrhyw wasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol sydd i'w darparu gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol drwy drefniant o dan adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. | Adran 23(3)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Archwiliad eithriadol o gyfrifon corff llywodraeth leol. | Adran 37(8) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| | Adran 145D(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 |
| Cyngor a chymorth a ddarperir gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. | Dim ond yn unol â chynllun ar gyfer codi ffioedd o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2013 y caniateir i delerau talu gael eu gwneud |

| Natur y gwaith | Deddfiadau |
|---|---|
| **Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi graddfeydd ffioedd ar gyfer y gweithgareddau canlynol** | |
| Archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol | Adran 20(A1)(a) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| Cymorth i Brif Arolygydd EF dros Addysg a Hyfforddiant Cymru | Adran 41A(6) o Ddeddf Addysg 1997 |
| Astudiaethau sy'n ymwneud â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (cymdeithasau tai) | Adran 145C(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 |
| Astudiaethau ar gais cyrff llywodraeth leol | Adran 20(A1)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| Astudiaethau gweinyddu budd-daliadau ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol | Adran 45(7) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| Gwasanaethau ardystio grantiau | Adran 23(4)(a) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Astudiaethau ar gais cyrff addysgol | Adran 23(4)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Archwiliadau gwybodaeth gwella, asesiadau gwella ac archwiliadau arbennig Awdurdodau Gwella Cymru | Adran 27 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 |
| Arolygiadau arbennig o brif gynghorau | Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 |

# C Graddfeydd Ffioedd 2024–25

## Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith a wnaed o dan y Fenter Twyll Genedlaethol (paru data)

37 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal y Fenter Twyll Genedlaethol gan ddefnyddio ei bwerau paru data statudol o dan Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

38 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ganfod hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi bod yn offeryn effeithiol iawn wrth ganfod ac atal twyll a gordaliadau.

39 Nododd ein hadroddiad dwyflynyddol diwethaf arbedion a gordaliadau posibl o £6.5 miliwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru, sy'n cynyddu'r arbedion cronnol i £49.4 miliwn ers 1996.

40 Ers mis Ebrill 2015, mae'r Senedd wedi talu costau rhedeg y Fenter Twyll Genedlaethol drwy daliad o Gronfa Gyfunol Cymru. Bwriad hyn yw annog sefydliadau i gymryd rhan yn wirfoddol a symleiddio'r trefniadau ar gyfer cyfranogwyr gorfodol. Fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth, dangosir y ffioedd ar gyfer cyfranogwyr gorfodol yn **Arddangosyn 2**.

**Arddangosyn 2: Ffioedd y Fenter Twyll Genedlaethol**

| | Ffi 2024–25 |
|---|---|
| Awdurdod unedol; comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid; awdurdodau tân ac achub; ymddiriedolaethau'r GIG; byrddau iechyd lleol | Dim |
| Cyfranogwyr gwirfoddol | Dim |
| Hefyd, gellir rhoi mynediad i'r holl gyfranogwyr at wiriwr ceisiadau'r Fenter Twyll Cenedlaethol (App Check). | Dim |

# Graddfeydd ffioedd ar gyfer cyrff Llywodraeth Leol

## Awdurdodau unedol

### Arddangosyn 3: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2023-24

| | Ystod ffioedd | | | Y Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £ miliwn | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif £'000 |
| 100 | 145 | 171 | 196 | 159 |
| 200 | 175 | 205 | 236 | 191 |
| 300 | 195 | 229 | 263 | 213 |
| 400 | 210 | 247 | 284 | 230 |
| 500 | 223 | 262 | 302 | 244 |
| 600 | 234 | 275 | 317 | 257 |
| 700 | 244 | 287 | 330 | 267 |
| 800 | 253 | 297 | 342 | 277 |
| 900 | 261 | 307 | 353 | 286 |
| 1,000 | 268 | 315 | 363 | 294 |
| 1,100 | 275 | 324 | 372 | 302 |
| 1,200 | 281 | 331 | 381 | 309 |

**Arddangosyn 4: graddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2024-25**

| | Ystod ffioedd | | | Y Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| **Pob awdurdod unedol** | **Isafswm £’000** | **Canolrif £’000** | **Uchafswm £’000** | **Canolrif £’000** |
| | 113 | 120 | 136 | 112 |

## Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol

**Arddangosyn 5: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2023-24**

| | Ystod ffioedd | | | Y Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| **Pob cronfa pensiwn** | **Isafswm £’000** | **Canolrif £’000** | **Uchafswm £’000** | **Canolrif £’000** |
| | 45 | 56 | 60 | 48 |

## Awdurdodau Tân ac Achub

**Arddangosyn 6: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2023-24**

| | Ystod ffioedd | | | Y Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros £ miliwn** | **Isafswm £’000** | **Canolrif £’000** | **Uchafswm £’000** | **Canolrif £’000** |
| 20 | 43 | 50 | 58 | 47 |
| 40 | 51 | 60 | 69 | 56 |
| 60 | 57 | 67 | 77 | 63 |
| 80 | 62 | 72 | 83 | 68 |
| 100 | 65 | 77 | 88 | 72 |

### Arddangosyn 7: graddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2024–25

| | | Ystod ffioedd | | Y Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Pob awdurdod tân ac achub | Isafswm £’000 | Canolrif £’000 | Uchafswm £’000 | Canolrif £’000 |
| | 18 | 18 | 18 | 17 |

## Awdurdodau Parc Cenedlaethol

### Arddangosyn 8: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2023–24

| | Ystod ffioedd | | | Y Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £ miliwn | Isafswm £’000 | Canolrif £’000 | Uchafswm £’000 | Canolrif £’000 |
| 2 | 26 | 31 | 36 | 29 |
| 4 | 32 | 37 | 43 | 35 |
| 6 | 35 | 42 | 48 | 39 |
| 8 | 38 | 45 | 52 | 42 |
| 10 | 41 | 48 | 55 | 44 |

### Arddangosyn 9: graddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2024–25

| | Ystod ffioedd | | | Y Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Pob awdurdod parc cenedlaethol | Isafswm £’000 | Canolrif £’000 | Uchafswm £’000 | Canolrif £’000 |
| | 22 | 24 | 27 | 22 |

## Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

41 Mae archwilwyr yn cynnal archwiliadau o ddau gorff statudol mewn ardal heddlu – Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabliaid. Mater i archwilwyr benderfynu arno fydd rhannu cyfanswm y ffi rhwng y ddau gorff mewn ardal heddlu benodol, yn seiliedig ar ofynion cyfrifyddu a'r trefniadau gweithredol a roddwyd ar waith gan bob un o'r cyrff.

**Arddangosyn 10: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2023–24**

| | Ystod y ffioedd cyfunol ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid | | | Y Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros Cyfunol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl £ miliwn** | **Isafswm £'000** | **Canolrif £'000** | **Uchafswm £'000** | **Canolrif £'000** |
| 50 | 73 | 84 | 96 | 78 |
| 100 | 86 | 100 | 114 | 93 |
| 150 | 95 | 110 | 126 | 102 |
| 200 | 102 | 118 | 135 | 110 |
| 250 | 108 | 125 | 143 | 116 |
| 300 | 113 | 131 | 149 | 122 |
| 350 | 117 | 136 | 155 | 126 |

## Cynghorau tref a chymuned sydd ag incwm neu wariant blynyddol o dan £2.5 miliwn

42 Mae cynghorau tref a chymuned yng Nghymru yn ddarostyngedig i drefn archwilio sicrwydd gyfyngedig.

43 Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol bapur yn nodi sut y bydd yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal ar gylch tair blynedd fel y nodir yn **Arddangosyn 11**.

**Arddangosyn 11: cylch archwilio tair blynedd ar gyfer cynghorau tref a chymuned**

| | Grŵp A | Grŵp B | Grŵp C |
|---|---|---|---|
| Blwyddyn 1 | Profi trafodiadau | Gweithdrefnau cyfyngedig | Gweithdrefnau cyfyngedig |
| Blwyddyn 2 | Gweithdrefnau cyfyngedig | Profi trafodiadau | Gweithdrefnau cyfyngedig |
| Blwyddyn 3 | Gweithdrefnau cyfyngedig | Gweithdrefnau cyfyngedig | Profi trafodiadau |

44 Seilir y taliadau am y gwaith hwn ar yr amser a gymerir i gwblhau'r archwiliad ar daliadau cyfradd ffioedd fel y nodir yn **Arddangosyn 1** ar dudalen 36.

45 Mewn amgylchiadau pan fo angen rhagor o dystiolaeth ar yr archwilydd i gyflawni ei gyfrifoldebau'n briodol, gan gynnwys ar ôl cyhoeddi adroddiad budd cyhoeddus cysylltiedig, cynhelir profion ychwanegol i fynd i'r afael â phryderon yr archwilydd.

46 Pwysleisir y bydd y tâl gwirioneddol a godir ar unrhyw gorff penodol yn dibynnu ar yr amser gwirioneddol a weithiwyd ar yr archwiliad penodol hwnnw. At ddibenion dangosol yn unig y mae'r ystod o ffioedd a ddarperir yn **Arddangosyn 12**.

**Arddangosyn 12: amcangyfrif o'r taliadau amser am archwilio cyfrifon cynghorau tref a chymuned 2023–24**

| | Band 1 (<£10k) | Band 2 (<£25k) | Band 3 (<£50k) | Band 4 (<£100k) | Band 5 (<£500k) | Band 6 (>£500k) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Archwilio trafodiadau | £160 - £195 | £181- £213 | £245 - £300 | £379 - £463 | £676 - £809 | £899 - £1,160 |
| Gweithdrefnau cyfyngedig | £117 - £138 | £145 - £172 | £145 - £172 | £223 - £266 | £223 - £266 | £223 - £266 |

## Cyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith arall mewn llywodraeth leol

47 Heblaw am y mathau hynny o gyrff y mae graddfeydd ffioedd wedi eu rhagnodi ar eu cyfer fel y dangosir uchod, mae nifer fach o fathau eraill o gyrff llywodraeth leol y mae'r broses o ragnodi graddfa ffioedd yn fater o drosi'r gofynion adnoddau yn ffioedd yn seiliedig yn uniongyrchol ar gostau cyflawni'r gwaith neu drwy gymhwyso'r cyfraddau ffioedd fel y nodir yn **Arddangosyn 1**. Bydd hyn yn cynnwys archwiliadau o Gyd-bwyllgorau Corfforaethol. Mae'n dal yn wir, ar gyfer archwilio'r cyrff hyn, ein bod yn defnyddio dull cwbl gynhwysfawr wrth gynllunio'r archwiliadau.

48 Er mwyn i gyrff llywodraeth leol o bob math gyflawni eu cyfrifoldebau statudol, weithiau, mae angen i'r Archwilydd Cyffredinol wneud gwaith sy'n mynd y tu hwnt i ddyletswyddau cyffredinol (y rhai a nodir yn adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac yn adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). Gall gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er budd y cyhoedd, archwiliad eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith ychwanegol mewn cysylltiad â heriau gan etholwyr, ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd taliadau am y math hwn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith sydd ei angen.

49 Mae'n bosibl hefyd y bydd archwilwyr yn ymgymryd â gwaith ardystio grantiau mewn cyrff llywodraeth leol ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae swm y gwaith ardystio grantiau a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn dibynnu ar nifer y cynlluniau sy'n ddarostyngedig i archwiliad a nifer y cyrff archwiliedig sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Codir tâl am y gwaith hwn fesul awr ac mae'n adlewyrchu maint, cymhlethdod a/neu unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r grant dan sylw fel y nodir yn **Arddangosyn 13**.

**Arddangosyn 13: amcangyfrifon o gyfrannau cymharol graddau staff archwilio sydd i'w defnyddio ar gyfer gwahanol fathau o waith grantiau.**

| Gradd y staff | Cymysgedd staff grantiau cymhleth % | Pob cymysgedd arall o staff grantiau % |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr ymgysylltu | 1 i 2 | 0 i 1 |
| Rheolwr Archwilio | 4 i 6 | 1 i 2 |
| Arweinydd Archwilio | 18 i 21 | 12 i 16 |
| Archwilydd/prentis dan hyfforddiant neu hyfforddai/prentis graddedig | 71 i 77 | 81 i 87 |

Mae grantiau cymhleth yn cynnwys:

- BEN01 Cynllun budd-daliadau tai a'r dreth gyngor
- LA01 Ffurflen ardrethi annomestig cenedlaethol
- PEN05 Ffurflen pensiynau athrawon

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Interim

Asesiad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Blynyddol 2023-24 yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2023.

Hydref 2023

Mae'r Adroddiad Interim hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2023. Mae wedi cael ei baratoi ar y cyd, a chaiff ei gyflwyno gerbron y Senedd, gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r Adroddiad Interim yn cynnwys asesiad o'r graddau:

- y mae'r ffordd yr arferwyd swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn gyson â'r Cynllun Blynyddol a baratowyd ar gyfer 2023-24;
- y gwnaed cynnydd tuag at gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun: ac
- y gwnaed cynnydd tuag at gyflawni targedau ein dangosyddion perfformiad allweddol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. O ganlyniad, yn yr Adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio'n benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau lle mae angen trachywiredd cyfreithiol.

Os bydd angen y cyhoeddiad hwn arnoch ar ffurf a/neu mewn iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas (llawr isaf a llawr cyntaf)
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

| | |
|---|---|
| Ffôn | 02920 320 500 |
| E-bost | post@archwilio.cymru |
| Gwefan | www.archwilio.cymru |
| X | @WalesAudit |

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

# Cynnwys


Rhagair 4

Cyflawni Archwiliadau 6

Cynnal y Busnes 8

Meysydd blaenoriaeth i’w gweithredu yn 2023-24 10

Dangosyddion perfformiad allweddol 25

Atodiadau

1 Gwaith archwilio lleol 31

2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol 32

3 Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol 35

# Rhagair

Mae’r Adroddiad Interim hwn yn disgrifio’r cynnydd rydym wedi’i wneud tuag at gyflawni ein Cynllun Blynyddol 2023-24, sef yr ail gynllun i gefnogi cyflawniad y meysydd allweddol a nodir yn ein strategaeth bum mlynedd – Sicrhau, Esbonio, Ysbrydoli: Ein strategaeth 2022-27. Mae cyflawni ein gwaith archwilio cyfrifon wedi parhau i fod yn flaenoriaeth dros chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol; mae cyfrifon y GIG a Llywodraeth Ganolog wedi’u cyflawni erbyn y terfynau amser a osodwyd, ond mae pwysau ar adnoddau wedi golygu y bydd cyfrifon y sector llywodraeth leol yn cael eu cyflawni’n hwyrach na’r disgwyl a bydd hyn yn cael effaith ganlyniadol ar yr amserlen gyflawni ar gyfer cyfrifon 2023-24. Mae adnoddau wedi parhau i fod yn risg strategol allweddol ac mae’r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a’r Bwrdd yn cefnogi’r timau archwilio i geisio ailgydio ynddi, gyda chamau amrywiol wedi’u cymryd i bontio’r bwlch o ran adnoddau; gan gynnwys dargyfeirio staff o waith arall a gynlluniwyd sydd wedi effeithio ar y gallu i gyflwyno’r ffrydiau gwaith hynny yn unol â’r amserlen a gynlluniwyd.

Yn ystod chwarter 1 2023, am y tro cyntaf, defnyddiwyd cwmni ymchwil annibynnol i gael adborth gan randdeiliaid ar ein rhan. Roeddem yn falch iawn o’r negeseuon cadarnhaol a gawsom, yn enwedig lefel y gwerthfawrogiad gan ein rhanddeiliaid gydag 87% yn nodi bod ein hadroddiadau’n glir. ac yn hawdd eu deall, roedd 87% yn gwerthfawrogi arbenigedd ein staff ac 87% yn cytuno neu’n cytuno’n gryf ei bod hi’n hawdd gweithio gyda’n staff. Roedd 89% o’r ymatebwyr yn cytuno neu’n cytuno’n gryf bod timau archwilio yn cyfathrebu’n effeithiol, ac yn gyffredinol, roedd 92% yn fodlon ar eu prif gyswllt â ni. Roedd hwn yn adborth gwych ac yn adlewyrchu ar waith anhygoel ein timau a’r unigolion sy’n gweithio ar draws y sefydliad.

Rydym yn ymwybodol iawn o'n cyfrifoldeb i rannau eraill o'r sector cyhoeddus i gynnwys ein costau gweithredu ein hunain a'r ffioedd a godwn, ar yr amod nad yw'n peryglu ansawdd archwilio a'r sicrwydd y gallwn ei ddarparu. Dros y cyfnod adrodd, er mwyn helpu i wrthbwyso costau staff cynyddol rydym wedi gwneud penderfyniadau anodd i leihau ein gwariant nad yw'n wariant ar staff. Rydym wedi symud i swyddfeydd llai o faint, rhatach yn Ne a Gogledd Cymru ac wedi lleihau ein costau teithio a chostau cysylltiedig yn sylweddol. Gwnaethom ddechrau Adolygiad o Gynaliadwyedd Ariannol, gan osod targed ariannol heriol o wneud arbedion o £500,000 i fantoli ein cyllid ar gyfer 2023-24, sydd wedi'i nodi'n llwyddiannus. Mae'r adolygiad bellach wedi sefydlu mecanwaith i herio ein model gweithredu a nodi rhagor o gyfleoedd ar gyfer arbedion ac effeithlonrwydd yn y blynyddoedd i ddod.

Er gwaethaf heriau o ran adnoddau, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu archwiliad cyhoeddus o ansawdd uchel i sicrhau gwerth am arian o bob punt o wariant cyhoeddus, ac ar gyfer asesiad amserol, dibynadwy o gyflwr rheolaeth ariannol a llywodraethu yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Ein staff yw ein hased mwyaf i gyflawni hyn ac rydym yn parhau i ganolbwyntio ar recriwtio, hyfforddi a datblygu ein staff â chymwysterau proffesiynol i ddarparu swyddfa archwilio cyhoeddus gref, gynaliadwy ac annibynnol.



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



**Dr Kathryn Chamberlain**
Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

# Cyflawni Archwiliadau

## Gwaith craidd

Gwneud gwaith archwilio mewn mwy na **800** o gyrff cyhoeddus

Cyflwyno rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau **gwerth am arian**

Ardystio cynlluniau grant gwerth tuag **£1.5 biliwn**

Cymeradwyo taliadau sy'n werth tuag **£1.8 biliwn** o Gronfa Gyfunol Cymru bob mis

**Ategu gwaith craffu effeithiol**, gan gynnwys gwaith Pwyllgorau'r Senedd

Rhannu'r **arferion da** rydym yn ei weld trwy'r Fenter Twyll Genedlaethol

Hwyluso'r gwaith o **ganfod twyll a gwallau** trwy'r Fenter Twyll Cenedlaethol

Cymryd rhan â **statws arsylwr** ar amrywiaeth o weithgorau polisi

1 Mae'r gwaith yn parhau i gwblhau ein gwaith archwilio cyfrifon ar gyfer cyfrifon 2022-23, ac er gwaethaf ymdrechion megis cyflwyno goramser ar gyfer y gwaith hwn ac ailgyfeirio staff o brosiectau eraill, sydd wedi cael sgil-effaith ar gyflawni gwaith arall, mae'r terfyn amser ar gyfer cwblhau'r gwaith o archwilio cyfrifon yn dal i fod yn heriol. Rydym yn parhau i fonitro'r gwaith o gyflawni gwaith archwilio cyfrifon ac yn gweithio gyda'r cyrff a archwilir i liniaru oedi lle bynnag y bo modd. Darperir rhestr gynhwysfawr o'r cyrff cyhoeddus yr ydym yn eu harchwilio, a'r math o waith a wneir, yn **Atodiad 1**.

2 Mae ein rhaglen archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian genedlaethol yn cael ei hadolygu'n rheolaidd, gan ystyried blaenoriaethau archwilio yng nghyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu'r cyrff a archwilir gennym i ymwneud â ni. Darperir rhestr gyfoes o'r gwaith a gwblhawyd, yr hyn sy'n mynd rhagddo a'r gwaith sydd i'w ddechrau yn ystod gweddill 2023-24 yn **Atodiad 2**.

3 Mae ein gwaith wedi parhau i chwarae rhan allweddol wrth ategu gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (PAPAC) wrth iddo ystyried y defnydd o adnoddau a chyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yn **Atodiad 3**, rydym yn darparu mwy o fanylion ynghylch sut rydym wedi ategu craffu ac atebolrwydd effeithiol yn hanner cyntaf 2023-24.

# Cynnal y Busnes

## Gwaith craidd

Gosod y gyllideb gyffredinol o **£24.3 miliwn** a chodi ffioedd am waith archwilio

Cyflogi oddeutu **290 o aelodau staff** a rheoli ystod amrywiol o asedau ffisegol a gwybodaeth

Darparu **arweinyddiaeth gref** a gwreiddio ein gwerthoedd a'n hymddygiadau

**Monitro'r** ffordd y caiff swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol eu harfer a rhoi cyngor iddo

4 Ddiwedd mis Mawrth 2023, cwblhawyd symud ein swyddfa yng Nghaerdydd i adeilad newydd yng Nghwr y Ddinas. Digwyddodd hyn ar ôl ymgysylltu'n helaeth â staff i sicrhau adeilad sy'n bodloni ein hanghenion busnes esblygol ac sy'n cefnogi llesiant staff; mae adborth gan staff wedi bod ym mhob rhan o'r sefydliad. Defnyddiwyd y dull gweithredu a'r gwersi a ddysgwyd o'r broses symud swyddfeydd lwyddiannus hon wrth gynllunio a chyflawni'r gwaith o adleoli ein swyddfa yng Ngogledd Cymru o Abergele i le yn swyddfa Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno ym mis Medi 2023.

5 Ffocws allweddol arall ar gyfer cynnal y busnes fu adolygu canolfannau teithio i staff, a lansiwyd ymgynghoriad gennym ym mis Gorffennaf 2023. Roeddem wedi edrych ar hyn yn wreiddiol yn rhan o'r adolygiad o'r lwfansau teithio yn 2021. Y pryd hynny, cytunwyd y byddwn yn oedi ac ailystyried ar ôl i'r adolygiad hwnnw ddod i ben, er mwyn i ni allu myfyrio ynghylch sut yr ydym yn gweithio mewn byd ar ôl y cyfyngiadau symud a sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau CThEF. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar degwch a chysondeb; mae adborth o'r ymgynghoriad, a ddaeth i ben ym mis Medi, wedi bod yn gadarnhaol ynghylch y cynigion, er bod staff wedi gofyn am enghreifftiau er eglurder ynglŷn â rhoi'r trefniadau newydd ar waith.

6 Y flwyddyn hon, gosodwyd targed arbedion ariannol heriol gennym i fantoli'n cyllid ar gyfer 2023-24, a rhoddwyd grŵp gorchwyl a gorffen ar waith sy'n canolbwyntio ar nodi opsiynau arloesol a heriol ar gyfer gwneud arbedion.

7 Ceir rhagor o fanylion am y targedau cyflawnadwy allweddol hyn a'r blaenoriaethau eraill a nodir yn ein Cynllun Blynyddol yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

# Meysydd blaenoriaeth i'w gweithredu yn 2023-24

8 Mewn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu ac i'n helpu i gyflawni ein huchelgeisiau strategol erbyn 2027, nodwyd 16 o feysydd i ganolbwyntio arnynt i'w cyflawni yn ystod 2023-24.

9 Trefnir ein blaenoriaethau o gwmpas y tri maes i ganolbwyntio arnynt a nodwyd yn Ein Strategaeth 2022-2027;

- Rhaglen archwilio strategol, dynamig, o ansawdd uchel;
- Dull effeithiol sydd wedi'i dargedu o gyfathrebu a dylanwadu;
- Diwylliant a model gweithredu sy'n caniatáu i ni ffynnu yn awr ac yn y dyfodol.

10 Ceir crynodeb o'r cynnydd rydym wedi ei wneud tuag at gyflawni pob un o'r rhain yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn yn y tablau canlynol.

## Rhaglen archwilio strategol, dynamig, o ansawdd uchel

| Maes ffocws | Yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn 2023-24 |
|---|---|
| **Cyflawni Archwiliadau** | |
| Gwreiddio dull newydd sy'n cydymffurfio ag ISA315 ar gyfer ein gwaith archwilio cyfrifon a safonau INTOSAI wrth gyflawni ein gwaith Archwilio Perfformiad. | Dros y cyfnod adrodd, rydym wedi cwblhau hyfforddiant ar gyfer pob aelod o'r staff archwilio ar ein dull archwilio cyfrifon newydd a'n llwyfan tystiolaeth archwilio yn SharePoint; rhoddwyd hyn ar waith ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safon Archwilio ISA315 ddiwygiedig. Mae'r dull hwn wedi'i gynllunio i nodi ac ymateb i risg yn fwy effeithiol fel y gall timau ganolbwyntio ar y meysydd pwysicaf mewn cyfrifon. Rydym wedi ei ddefnyddio am y tro cyntaf wrth gwblhau archwiliadau'r GIG. Rydym hefyd wedi ei ddefnyddio ar gyfer cwblhau nifer o archwiliadau'r llywodraeth ganolog ac mae ein gwaith yn parhau mewn rhai cyrff y llywodraeth ganolog a llywodraeth leol.<br><br>Rydym wedi cyflogi Adran Sicrwydd Ansawdd (QAD) Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICEAW) i gynnal adolygiad ansawdd o archwiliad un o'r Byrddau Iechyd; rydym hefyd wedi cynnal sesiwn ddysgu ôl-brosiect fewnol ar draws y sector i nodi unrhyw gyfleoedd ar gyfer datblygiadau a gwelliannau pellach i'n dull gweithredu newydd. Bydd y ddwy fenter hyn yn ein helpu i wreiddio'r dull newydd o weithredu ym musnes fel arfer.<br><br>Mae ein Llawlyfr Datblygu Archwilio Perfformiad sydd wedi'i ddiweddaru hefyd wedi'i wreiddio ar draws timau i gefnogi cydymffurfiaeth â safonau proffesiynol INTOSAI; ategwyd hyn gan raglen barhaus o ddysgu a datblygu, a bydd yn parhau i wella eglurder ac effaith ein hadroddiadau. |

| Maes ffocws | Yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn 2023-24 |
|---|---|
| Darparu rhaglen fwy deinamig o waith archwilio o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu'r heriau y mae'r sector cyhoeddus yn eu hwynebu'n lleol ac yn genedlaethol. | Yn ystod y cyfnod adrodd, cyhoeddwyd ein Rhaglen Waith 2023-2026, sy'n cael ei llywio gan weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid a'n Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021.<br><br>Er bod y rhaglen dymor canolig hon yn canolbwyntio'n benodol ar ein harchwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol, gan gynnwys adolygiadau lleol thematig, mae hefyd yn cyffwrdd â meysydd ffocws ar gyfer gwaith archwilio perfformiad lleol mewn cyrff unigol, ac mae'n eistedd ochr yn ochr â'n harchwiliad blynyddol o gyfrifon mewn mwy na 800 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Ochr yn ochr â gwaith sy'n dechrau yn 2023-24, mae'n nodi pynciau dangosol ar gyfer gwaith cenedlaethol i ddechrau yn 2024-25 neu 2025-26.<br><br>Ym mis Ebrill 2023, cynhaliwyd 'Symposiwm Ansawdd' gennym ar gyfer staff, yn nodi ein dull o wella ansawdd archwilio ac yn dathlu pwysigrwydd ein gwaith yn y sector cyhoeddus. Gyda'r pwysau gweithredol sydd ar staff, roedd y digwyddiad hwn yn gyfle i ddod at ein gilydd a chamu'n ôl i gydnabod effaith ein gwaith a myfyrio arno. Dilynwyd y diwrnod gan gyfres o weithdai 'Cinio a Dysgu'.<br><br>Mae ein rhaglen waith yn cael ei hadolygu'n gyson; er enghraifft, oherwydd heriau o ran adnoddau a'r flaenoriaeth o gael y gwaith o archwilio cyfrifon 2022-23 yn ôl ar y trywydd iawn, mae staff wedi'u rhyddhau o waith arall i ategu'r gwaith o gyflawni cyfrifon, ac mae wedi effeithio ar y rhaglen waith a gyhoeddwyd. Mae gwaith wedi dechrau i roi sylw i hyn eto, gan ystyried a blaenoriaethu pynciau yn y dyfodol, a bydd yn parhau drwy'r hydref a'r gaeaf. |

| Maes ffocws | Yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn 2023-24 |
|---|---|
| Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i nodi terfynau amser archwilio ar gyfer ein gwaith cyfrifon ar gyfer 2023 a blynyddoedd i ddod, cytuno arnynt a'u dwyn ymlaen. | Mae darparu adnoddau ar gyfer ein rhaglen archwilio cyfrifon 2022-23 wedi parhau i fod yn flaenoriaeth yn ystod hanner cyntaf 2023-24; mae hyn wedi'i gydbwyso â'r gwaith o reoli'r effaith ar ein rhaglen archwilio perfformiad a gwaith ehangach. Yn wyneb marchnad recriwtio anodd a throsiant staff, mae'r Tîm Arwain Gweithredol (ELT) a'r Cyfarwyddwyr wedi archwilio ffyrdd o gynyddu capasiti i roi ein gwaith ar gyfrifon yn ôl ar y trywydd iawn. Dros y cyfnod adrodd, mae hyn wedi cynnwys recriwtio myfyrwyr ar leoliad a defnyddio pobl o bob rhan o'r sefydliad i gefnogi'r gwaith o archwilio cyfrifon. Cynhaliwyd cynllun peilot goramser gennym hefyd, a brofodd ei werth ac sydd bellach wedi'i fabwysiadu fel cynnig sydd ar waith pan fydd anghenion y busnes yn cyfiawnhau hynny.<br><br>Agwedd bwysig ar roi gwaith archwilio cyfrifon yn ôl ar y trywydd iawn fu cyfathrebu da a thryloywder gyda'r cyrff a archwilir gennym; dros y cyfnod adrodd, buom yn gweithio'n agos gyda nhw i reoli eu disgwyliadau, ac mewn llywodraeth leol, ymwelwyd â Chymdeithas Trysoryddion Cymru i gytuno ar flaenoriaethau.<br><br>Rydym wedi cytuno ar amserlen gyflawni dair blynedd gyda sectorau'r GIG a llywodraeth leol. Dros y tair blynedd, ein nod yw gwneud cynnydd graddol yn yr amserlen gymeradwyo ar gyfer archwiliadau cyfrifon i ddychwelyd i'r amserlen cyn-Covid. |

| Maes ffocws | Yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn 2023-24 |
|---|---|
| **Cynnal y Busnes** | |
| Datblygu ein hymagwedd at reoli perfformiad integredig. | Rydym yn parhau i esblygu a gwella ein hymagwedd at ddarparu adroddiadau rheoli perfformiad mwy integredig i'n Tîm Arwain Gweithredol, ein Bwrdd a'n Pwyllgorau, i alluogi pob un ohonynt i gyflawni ei swyddogaethau a chyfrannu at brosesau penderfynu gwell. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o lywodraethu ac yn cydgrynhoi gwybodaeth o dan themâu allweddol, sef pobl, punnoedd, a chyflawni'r cynllun, gan amlygu'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder. Fe'i hategir gan ddangosfyrddau gwybodaeth ariannol a rheoli ar-lein sydd wedi'u diweddaru sy'n dwyn ynghyd wybodaeth o'n cyllid, risgiau strategol, perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol a chyflawniad ein cynllun strategol yn offer adrodd hawdd eu defnyddio y gellir eu harchwilio er mwyn edrych yn fanylach ar y manylion sydd y tu ôl i'r penawdau.<br><br>Yn rhan o'n hymgyrch i gynyddu tryloywder wrth wneud penderfyniadau, mae'r adroddiad perfformiad integredig sy'n mynd i'r Bwrdd hefyd ar gael i'r holl staff ei weld ar ein safle Hyb mewnol.<br><br>Gwnaed gwaith hefyd gan ein tîm Dadansoddi Data i ddatblygu offeryn i alluogi'r gwaith o fonitro'r cynllun gwaith archwilio'n gyffredinol, a bydd hwn yn barod i'w ddefnyddio ar gyfer monitro'r gwaith o archwilio cyfrifon yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Ochr yn ochr â hyn, mae'r gwaith o weithredu ein system newydd ar gyfer cofnodi a rheoli amser (TRM) wedi hwyluso datblygiad parhaus y gwaith o adrodd gwybodaeth reoli. Bydd hyn yn dechrau creu dealltwriaeth gliriach o'r galw ac o argaeledd staff ar gyfer gwaith archwilio ar lefel unigol a lefel timau. (Gweler yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn am ragor o fanylion). |

| Maes ffocws | Yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn 2023-24 |
|---|---|
| Cwmpasu ein Hadolygiad Cynaliadwyedd Ariannol a dechrau gweithredu newidiadau angenrheidiol i fyw o fewn ein modd yn 2023-24 a'r blynyddoedd i ddod, gan ddangos ein hymrwymiad ein hunain i werth am arian. | Yn ystod y cyfnod adrodd, sefydlwyd grŵp cynaliadwyedd ariannol, ac mae wedi dechrau archwilio sut y gallwn gyflawni arbedion gyda ffocws ar fodelau cyflawni, effeithlonrwydd, a chynhyrchu incwm. Gosodwyd targed heriol gennym i'n hunain, sef gwneud arbedion o £500,000 yn 2023-24, ac mae'r grŵp wedi llwyddo i nodi'r arbedion hyn, gan ganolbwyntio ar arbedion effeithlonrwydd a chyllidebau o'r maint cywir, ac mae wedi nodi cyfleoedd pellach ar gyfer creu arbedion ac incwm ychwanegol trwy adolygu'r hyn a wnawn, a sut rydym yn ei wneud. |

## Dull wedi'i dargedu ac effeithiol o gyfathrebu a dylanwadu

| Maes ffocws | Yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn 2023-24 |
|---|---|
| **Cyflawni Archwiliadau** | |
| Rhoi dull ymgysylltu â rhanddeiliaid newydd ar waith i gasglu adborth annibynnol gan y cyrff a archwilir gennym. | Rhwng mis Chwefror a mis Mai 2023, cynhaliwyd dau ddarn sylweddol o ymchwil rhanddeiliaid annibynnol i fesur ymwybyddiaeth ac effaith ein gwaith.<br><br>Y cyntaf oedd cynnwys cwestiynau mewn arolwg omnibws Cymreig rheolaidd a'n galluogodd i ddod i ddeall gwybodaeth y cyhoedd yn gyffredinol am Archwilio Cymru a'n rôl. Yn ddigymell, dywedodd cyfranogwyr ein bod yn broffesiynol, yn atebol, yn wybodus ac yn annibynnol.<br><br>Roedd yr ail yn cynnwys cwmni annibynnol arall yn cynnal arolygon ar-lein a chyfweliadau ansoddol manylach gyda'n rhanddeiliaid. Roeddem yn hynod falch o'r canlyniadau cadarnhaol o'r gwaith hwn, gan sgorio'n uchel iawn ar ganfyddiadau o annibyniaeth, proffesiynoldeb, a chryfder ein perthynas â'r cyrff a archwilir.<br><br>Rydym yn defnyddio canlyniadau'r ddau ddarn o ymchwil i lywio sut rydym yn parhau i hyrwyddo ein gwaith ac ategu'r negeseuon ynghylch effaith ein gwaith hanfodol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.<br><br>Darparodd y gwaith negeseuon cadarnhaol cryf a rannwyd gennym ar draws y sefydliad cyfan, a byddwn yn bwydo'n ôl i'n holl randdeiliaid allanol dros yr hydref. |

| Maes ffocws | Yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn 2023-24 |
|---|---|
| Diweddaru ein gwefan. | Yn ystod y cyfnod adrodd, dechreuwyd prosiect gennym i adolygu cynnwys, gosodiad a dyluniad gwefan Archwilio Cymru. Mae'r prosiect wedi dilyn methodoleg ystwyth sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, gyda chyfnod darganfod sydd wedi'i gwblhau a oedd yn edrych ar anghenion penodol rhanddeiliaid Archwilio Cymru wrth ddefnyddio'r wefan.<br><br>Mae anghenion y defnyddwyr wedi'u mapio, felly mae gwaith ar y gweill i ddylunio a chodio'r elfennau lluosog o'r wefan a fydd yn ffurfio canllaw arddull ddigidol ar gyfer y sefydliad. Bydd y ganllaw ddigidol hon yn galluogi creu tudalennau a chynnwys newydd yn gyflym.<br><br>Ffocws allweddol i'r tîm fu datblygu hafan fwy deinamig, llawn cynnwys sydd wedi'i gyrru gan ein rhaglen waith, gyda strwythurau newydd a fydd yn galluogi tagio cynnwys a chyhoeddiadau cysylltiedig, cyfleoedd i gael gwahanol fathau o gynnwys ac amlygu gwaith amserol sydd ar y gweill. Disgwylir i'r ganllaw arddull ddigidol gael ei chwblhau ym mis Hydref 2023. |

| Maes ffocws | Yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn 2023-24 |
| --- | --- |
| Cyflwyno rhaglen dreigl, wedi'i hadnewyddu o rannu arferion da (GPX), sy'n cyd-fynd â'n rhaglen archwilio ac sydd wedi'i chynllunio o'r cychwyn cyntaf. | Mae rhaglen lawn o ddigwyddiadau GPX wedi'i chwblhau a'i chyhoeddi ar ein gwefan. Trwy roi rhaglen waith archwilio strategol sy'n edrych i'r dyfodol ar waith, fel y crybwyllwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae ein tîm arfer da wedi gallu blaengynllunio a chanolbwyntio ei waith i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r rhaglen honno.<br><br>Hyd yn hyn yn y cyfnod adrodd, rydym wedi cynnal sawl digwyddiad arfer da – mewn gweminarau ac wyneb yn wyneb. Enghraifft ym mis Mai 2023 oedd dau ddigwyddiad a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Chomisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol – 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Y nod oedd ysbrydoli a grymuso gwasanaethau cyhoeddus i gofleidio amrywiaeth ddiwylliannol y Gymru fodern a gweithio y tu hwnt i gydymffurfio, gan wella gwasanaethau cyhoeddus i ddinasyddion Cymru yn y pen draw. Roedd yr adborth a gafwyd gan gyfranogwyr yn gadarnhaol iawn. |

| Maes ffocws | Yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn 2023-24 |
|---|---|
| **Cynnal y Busnes** | |
| Gwella ein trefniadau cyfathrebu mewnol gan gynnwys sesiynau ymgysylltu aml â'r tîm arwain gweithredol, rhannu straeon sy'n canolbwyntio ar yr ansawdd, yr effaith a'r rhyngweithio rydym yn eu cael trwy ein gwaith, a diweddaru sianeli cyfathrebu gan gynnwys ein mewnrwyd. | Yn dilyn adborth o'n harolwg pobl 2022 ac archwiliad mewnol ar gyfathrebu mewnol, cyflwynodd y tîm arwain gweithredol ddull newydd o gyfleu ei negeseuon allweddol. Roedd adborth yn dangos bod yn well gan staff e-bost uniongyrchol yn hytrach na blog ar yr Hyb; mae'r e-byst hyn ar faterion allweddol bellach yn cael eu hanfon bob pythefnos i dair wythnos.<br><br>Argymhellodd yr archwiliad mewnol hefyd ein bod yn rhoi arweiniad i staff ar y gwahanol sianeli cyfathrebu mewnol a sut i gael y gorau ohonynt. Cyhoeddwyd hwn ym mis Gorffennaf 2023 a bydd yn cael ei adolygu'n barhaus wrth i gynhyrchion ac ymarferoldeb newydd ddod i'r amlwg.<br><br>Y flwyddyn hon, dechreuodd y tîm arwain gweithredol ac aelodau'r Bwrdd gynnal sioeau teithiol gyda phob maes o'r busnes, hefyd. Cynhaliwyd y rownd gyntaf yn y gwanwyn, ac yn dilyn adborth, roedd yr ail rownd yn yr hydref yn fwy rhyngweithiol, gyda gwybodaeth yn cael ei dosbarthu ymlaen llaw i'w hystyried, a gofynnwyd i'r staff awgrymu meysydd pwnc allweddol yr hoffent eu trafod. Bydd y sesiynau hyn bellach yn nodwedd reolaidd bob gwanwyn a hydref. |

## Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu, nawr ac yn y dyfodol

| Maes ffocws | Yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn 2023-24 |
|---|---|
| **Cyflawni Archwiliadau** | |
| Gwreiddio ein system cofnodi a rheoli amser newydd (TRM) er mwyn darparu gwybodaeth reoli well, gan sicrhau defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o sgiliau staff ac ategu proffilio incwm mwy cywir. | Mae'r system TRM newydd - HubPlanner, bellach wedi'i gwreiddio'n llawn i ategu'r gwaith o adrodd ar daflenni amser wythnosol, a chyda newidiadau pellach yn cael eu gwneud yn ystod y cyfnod adrodd interim i symleiddio'r broses taflenni amser ar gyfer staff unigol. Rydym yn parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r system ei hun, ac mae'n ategu amrywiaeth o adroddiadau ar gyfer timau rheoli o ran prosiectau archwilio a chodi amser ar gyfer unigolion, gan gynnwys adroddiad byw ar gwblhau taflenni amser sy'n galluogi ymyrraeth gynnar.<br><br>Mae gwaith wedi parhau i lenwi'r system gyda gwybodaeth sy'n edrych i'r dyfodol o'r cynllun staff nad yw wedi'i gynnwys ynddo'n flaenorol. Mae blaenoriaethu sy'n cystadlu wedi effeithio ar y gwaith hwnnw, a rhoddir ystyriaeth bellach i lefel y manylion sy'n edrych i'r dyfodol yr ydym yn awyddus ei chael yn y system; bydd hyn yn sicrhau ei bod yn mynd i'r afael â gofynion allweddol, ar yr un pryd â gallu cael ei chynnal mewn ffordd gymesur a chynaliadwy.<br><br>Mae ein harchwilwyr mewnol yn cynllunio adolygiad o weithrediad y system yn ystod gweddill 2023-24. |

| Maes ffocws | Yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn 2023-24 |
|---|---|
| Gwella capasiti a gallu ein gweithlu trwy weithredu'r Cynllun Datblygu Pobl a'r Sefydliad a'r Cydgynllun Cydraddoldeb Strategol. | Cymeradwywyd canlyniadau a mesurau diwygiedig ar gyfer ein Strategaeth Datblygu Pobl a'r Sefydliad gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2022. Dros y cyfnod adrodd, rydym wedi gwneud y canlynol:<br>• adolygu ein trefniadau recriwtio;<br>• ennill achrediad 'Un o'r 10 Cyflogwr Gorau' yn rhestr Working Families 2023, cydnabod ein cefnogaeth i staff yn eu profiadau o waith a bywyd teuluol;<br>• cwblhau carfan 2 o'n Rhaglen Datblygu Rheolwyr Pobl, gydag adborth cadarnhaol gan y rhai a oedd yn bresennol; a<br>• dechrau trafod cydweithio ag Audit Scotland ar raglen arweinyddiaeth ar y cyd<br><br>Cyhoeddwyd ein Cydgynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-26 ym mis Medi 2022, a byddwn yn cyhoeddi ein Hadroddiad Cydraddoldeb ar gyfer 2022-23 yn fuan, gan amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein hamcanion ym mlwyddyn gyntaf y cynllun. |

| Maes ffocws | Yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn 2023-24 |
|---|---|
| **Cynnal y Busnes** | |
| Mynd i'r afael â pherfformiad sy'n gostwng o ran ymgysylltu a phrofiad cyflogeion. | Dros y cyfnod adrodd, sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried yr hyn sydd ei angen i ddatblygu diwylliant 'Un Archwiliad Cymru' a chael gwell dealltwriaeth o'r materion allweddol y tu ôl i raddau sgorio blaenorol cyflogeion o ran ymgysylltu a phrofiad, a sut y gellir mynd i'r afael â nhw.<br><br>Mae dull newydd o ymgysylltu â chyflogeion hefyd wedi'i gyflwyno, i gymryd lle Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil (CSPS). Mae'r dull newydd hwn yn galluogi mwy o hyblygrwydd a sgôp ar gyfer ymgysylltu ac yn rhoi cyfle i ni ddeall profiadau cyflogeion mewn ffordd lawer mwy deinamig. Byddwn yn mynd â rhai cwestiynau allweddol o'r CSPS i'r dull gweithredu newydd i sicrhau y gallwn olrhain ein canlyniadau blaenorol. Fodd bynnag, bydd yn rhoi mwy o gyfle inni feincnodi y tu hwnt i'r gwasanaeth sifil ac yn rhoi mynediad uniongyrchol inni at gymorth a chyngor ynghylch arferion gorau. Mae grŵp gweithredu traws-sefydliadol wedi'i sefydlu i wreiddio'r system a dylunio'r arolwg cyntaf, a fydd yn cael ei gynnal yn yr hydref. |

| Maes ffocws | Yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn 2023-24 |
|---|---|
| Gwreiddio uchelgeisiau sero net drwy ffyrdd o weithio, y cynllun teithio a datblygu ystadau. | Mae cyflawni ein strategaeth ystadau yn mynd rhagddi yn unol â'r amserlen yn sgil cwblhau'r gwaith o symud swyddfa Caerdydd i Gwr y Ddinas. Cyflawnwyd y gwaith symud yn sylweddol is na'r gyllideb drwy gyfuniad o gaffael call, ac ailgylchu dodrefn ac offer, ac mae'r costau cynnal wedi bod dros £200,000 yn llai na'n hen safle, gyda pherfformiad amgylcheddol sylweddol well, gan wneud cyfraniad sylweddol at ein cynlluniau sero net. Defnyddiwyd y dull gweithredu a'r gwersi a ddysgwyd wedi hynny wrth gynllunio a chyflawni'r gwaith o adleoli ein swyddfa yng Ngogledd Cymru o Abergele i Gyffordd Llandudno ym mis Medi 2023.<br><br>Cymeradwywyd ein cynllun teithio gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2023, a chaiff ei lansio yn yr hydref. Fe'i cynlluniwyd i helpu i leihau effeithiau amgylcheddol ac ariannol teithio busnes a chymudo, i annog lefelau uwch o weithgarwch corfforol a hybu lles.<br><br>Rydym wedi llwyddo i gynnal Lefel 5 y Ddraig Werdd (sef y lefel uchaf) ers pedair blynedd bellach gyda'r archwiliad allanol diweddaraf yn cael ei gwblhau ym mis Mehefin 2023. Mae Lefel 5 yn dangos ein hymrwymiad i welliant amgylcheddol parhaus. |
| Dychwelyd i weithio wyneb yn wyneb yn rheolaidd, fel rhan o fodel gweithio hybrid, ar gyfer pob tîm yn Archwilio Cymru i wella cynhyrchiant, ansawdd a diwylliant sefydliadol. | Dros y cyfnod adrodd, rydym wedi gweld symudiad tuag at ddull mwy cytbwys o weithio hybrid, gyda mwy o ddefnydd o swyddfeydd i dimau weithio a chydweithio. Yr adborth yw bod hyn yn gwella cynhyrchiant ac ansawdd ac yn meithrin ymdeimlad o waith tîm. |

| Maes ffocws | Yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn 2023-24 |
|---|---|
| Cyflawni a gwireddu manteision y Strategaeth Llesiant. | Lansiwyd ein Strategaeth a chynllun gweithredu Llesiant gwreiddiol ym mis Medi 2022, a thros y cyfnod adrodd, rydym wedi parhau i roi rhaglen o gamau gweithredu Llesiant ar waith fesul cam, ac mae gennym hyrwyddwyr Llesiant i gefnogi timau.<br><br>Mae'r hyrwyddwyr Llesiant wedi cael hyfforddiant ychwanegol ar gyfer eu rolau, gyda llawer yn dewis hyfforddi fel swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl hefyd. Roeddent yn cymryd rhan weithredol wrth inni symud i'n swyddfeydd newydd i sicrhau bod llesiant staff wrth wraidd dyluniadau a chynlluniau'r swyddfeydd.<br><br>Mae adolygiad o'r strategaeth Llesiant wedi dechrau'n ddiweddar, gan gynnwys yr hyrwyddwyr i fyfyrio ar y gwaith a wnaed hyd yma, a'i effaith. |
| Gwreiddio ffyrdd effeithiol o weithio yn y swyddfa newydd yng Nghaerdydd sy'n cefnogi cynhyrchiant, ansawdd, a diwylliant sefydliadol cydweithredol, a defnyddio dysgu ar draws holl swyddfeydd Archwilio Cymru. | Pan wnaethom symud i'r swyddfa newydd yng Nghaerdydd, cynigiwyd sesiynau cynefino i'r holl staff, ac roedd arolwg dilynol yn ceisio barn, yn nodi unrhyw feysydd pryder parhaus, ac yn ceisio canfod pa mor dda yr oedd timau ac unigolion yn sefydlu ffyrdd newydd o weithio yn y swyddfeydd newydd.<br><br>Roedd yr hyn a ddysgwyd o adleoli swyddfa Caerdydd yn sail i'r gwaith o adleoli swyddfa Gogledd Cymru; mae hyn wedi cynnwys lefelau uchel o ymgysylltu â staff yr effeithir arnynt a chyfleoedd i staff gyfrannu at newidiadau yn amgylchedd eu swyddfa. Yng Ngorllewin Cymru, cynhaliom sesiwn ddylunio i staff awgrymu ffyrdd o wella eu swyddfa, er mwyn sicrhau bod gan gydweithwyr fynediad at brofiadau a chyfleusterau tebyg. |

# Adrodd ar ein perfformiad

## Dangosyddion perfformiad allweddol

11 Isod, ceir crynodeb o'r sefyllfa ar 30 Medi 2023 o ran cyflawni'r 18 targed dangosydd perfformiad allweddol a nodir yn ein **Cynllun Blynyddol 2023-24**.

### Dangosyddion perfformiad allweddol cyflawni archwiliadau

**Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel**

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed ar gyfer 2023-24 | Perfformiad hyd at 30 Medi 2023 |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Terfynau amser statudol | Cyfran y cynhyrchion archwilio wedi'i chyflawni erbyn y dyddiad cau statudol gofynnol. | 100% | 95.8%[1] |
| 2 | Yn brydlon | Cyfran y cynhyrchion archwilio allweddol eraill sydd wedi'u cyflawni yn unol â'r amserlen arfaethedig ar gyfer sicrhau adrodd amserol sy'n cael effaith. | 90% | 100%[2] |

1 Yr eithriad oedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr lle nododd timau archwilio amrywiaeth o wallau a diffygion ac nid oeddent yn cael gwybodaeth gyflawn a chywir yn amserol i gwblhau'r archwiliad erbyn y terfyn amser penodedig.

2 Mae'r ffigur a nodwyd ar gyfer diwedd Ch2 yn adlewyrchu nifer gymharol fach o gynhyrchion (naw). Rydym yn disgwyl adrodd ar nifer uwch o gynhyrchion ar gyfer ail hanner y flwyddyn.

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed ar gyfer 2023-24 | Perfformiad hyd at 30 Medi 2023 |
|---|---|---|---|---|
| 3 | Ansawdd | Cyfran yr archwiliadau a adolygir sy'n cael eu cyflawni yn unol â safonau ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC). | Asesir bod 100% o'r sampl yn y ddau gategori ansawdd archwilio uchaf | Ddim ar gael eto[3] |
| 4 | Hygrededd | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n ein hystyried yn gyfathrebwr annibynnol ac awdurdodol ar lywodraethu a stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus. | O leiaf 90% | 85%[4] |
| 5 | Rhoi mewn-welediad | Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod, trwy ein gwaith ni, wedi cael mewnwelediad defnyddiol na fyddent wedi ei gael fel arall. | O leiaf 80% | 71% |
| 6 | Ysgogi gwelliannau | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n credu bod ein gwaith wedi arwain at welliannau yn narpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. | O leiaf 80% | 81% |
| 7 | Arbedion wedi'u nodi | Gwerth arbedion, incwm, enillion cynhyrchiant a buddion ariannol eraill posibl a nodwyd trwy ein gwaith. | O leiaf £30 miliwn yn ystod 2023-2026 | Ddim ar gael eto[5] |

3 Cwblheir yr adolygiadau yn ail hanner 2023-24.

4 Yn ystod chwarter 1 2023, defnyddiwyd cwmni ymchwil annibynnol gennym am y tro cyntaf i gael adborth gan randdeiliaid ar ein rhan. Roedd hyn yn cynnwys ymchwil feintiol ac ansoddol gan arwain at ddadansoddiad ehangach a dyfnach o'n heffaith na phrosesau mewnol blaenorol.

5 Er nad oes gennym ffigur wedi'i feintioli i'w adrodd ar hyn o bryd, mae nifer o ddarnau o waith ar y gweill, yn ogystal â'r Fenter Twyll Genedlaethol dreigl, y rhagwelwn y bydd yn nodi arbedion posibl neu fanteision ariannol eraill. Adroddir ar hyn yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2023-24.

## Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith o gyfathrebu a dylanwadu

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed ar gyfer 2023-24 | Perfformiad hyd at 30 Medi 2023 |
|---|---|---|---|---|
| 8 | Digwyddiadau arferion da | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n dweud bod ein digwyddiadau arferion da yn ddefnyddiol neu yn ddefnyddiol iawn. | O leiaf 90% | 92% |
| 9 | Ymweliadau â'r wefan | Nifer yr ymweliadau â'n gwefan lle mae o leiaf un weithred yn cael ei pherfformio, e.e. lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo. | 35,000 | 24,053 |
| 10 | Y cyfryngau cymdeithasol | Nifer yr ymgysylltiadau â'r cyfryngau cymdeithasol, h.y. rhyngweithio gyda'n postiadau er enghraifft eu hoffi, nodi sylw neu eu hail-drydar/eu rhannu. | 3,000 | 2,135 |
| 11 | Rhannu'r hyn yr ydym yn ei ddysgu trwy archwilio | Nifer yr achosion lle rydym yn cyflwyno'r hyn a ddysgwyd gennym i weithgorau polisi allweddol neu mewn digwyddiadau perthnasol a gynhelir yn allanol. | 50 | 21[6] |

6 Mae'r ffigur hwn yn cael ei gadarnhau ar ddiwedd y flwyddyn i'w addasu, er enghraifft i sicrhau bod presenoldeb mynych fel arsylwyr mewn grwpiau parhaus yn cael ei gyfrif fel un cofnod.

## Dangosyddion Perfformiad allweddol cynnal y busnes

### Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu nawr ac yn y dyfodol

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed ar gyfer 2023-24 | Perfformiad hyd at 30 Medi 2023 |
|---|---|---|---|---|
| 12 | Ymgysylltu â chyflogeion | Canran y sgorau mynegrif ymgysylltu o arolwg blynyddol y staff sy'n gadarnhaol, sy'n cyd-fynd â'r hyn a gafwyd ar gyfer Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil (CSPS). | O leiaf y sgôr meincnod canolrifol ar gyfer y CSPS diweddaraf | 60%[7] |
| 13 | Profiad y cyflogeion | Canran sgorau profiad y cyflogeion sy'n gadarnhaol yn arolwg thematig blynyddol y staff. | O leiaf y sgôr meincnod canolrifol ar gyfer y CSPS diweddaraf | Sgoriwyd 2 allan o 9 thema'n uwch na'r meincnod[8] |
| 14 | Absenoldeb oherwydd salwch | Diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul aelod o staff bob blwyddyn. | Llai na chwe diwrnod | 6.41 diwrnod |
| 15 | Mantoli ariannol | Lefel yr amrywiant mewn incwm a gwariant gros o'i chymharu â'r hyn a nodir yn ein Hamcangyfrif ar gyfer y flwyddyn gyfredol. | Llai na 2% o'r gyllideb gwariant gros | 2.2% |
| 16 | Arbedion cost ac effeithlonrwydd | Gwerth yr arbedion cost ac effeithlonrwydd a nodwyd drwy gydol y busnes. | £1.4 miliwn | £1.9 miliwn |

7 Sgôr ymgysylltu canolrifol CSPS 22 yw 65%

8 Rydym yn sgorio'n uwch na'r meincnod mewn dwy o'r themâu, sef Tâl a buddion a Chynhwysiant a Thriniaeth Deg. Y themâu sy'n weddill lle cawsom sgôr is na'r meincnod yw Fy ngwaith, Amcanion sefydliadol a phwrpas, Fy rheolwr, Fy nhîm, Dysgu a Datblygu, Adnoddau a llwyth gwaith ac Arweinyddiaeth a rheoli newid.

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed ar gyfer 2023-24 | Perfformiad hyd at 30 Medi 2023 |
|---|---|---|---|---|
| 17 | Allyriadau nwyon tŷ gwydr | Cyfanswm allyriadau cyfatebol $CO_2$. | Gostyngiad o 20% ar waelodlin 2019-20 a ail-gyfrifwyd | 93 tunnell |
| 18 | Cyfradd llwyddiant hyfforddeion | Cyfran yr hyfforddeion sy’n llwyddo y tro cyntaf yn eu harholiadau Lefel Broffesiynol ac Uwch gyda Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr. | O leiaf 90% | 80% |

# Atodiadau

1 Gwaith archwilio lleol

2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

3 Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol

# 1 Gwaith archwilio lleol

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud gwaith lleol yn y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn cynnwys archwiliadau o gyfrifon, gwaith archwilio perfformiad lleol a gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

| Corff cyhoeddus | Archwilio cyfrifon | Gwaith archwilio perfformiad lleol[9] | Gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol |
|---|---|---|---|
| Comisiwn y Senedd | ✓ | | |
| Llywodraeth Cymru | ✓ | | ✓ |
| 11 corff a noddir gan Lywodraeth Cymru | ✓ | | ✓[10] |
| Awdurdod Cyllid Cymru gan gynnwys y datganiad treth | ✓ | | |
| 5 cwmni Llywodraeth Cymru | ✓ | | |
| 6 Chomisiynydd, Arolygiaeth a Rheoleiddiwr | ✓ | | |
| 7 Bwrdd Iechyd Lleol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Ymddiriedolaeth GIG a 2 Awdurdod Iechyd Arbennig | ✓ | ✓ | ✓[11] |
| 22 o Gynghorau (Awdurdodau Unedol) | ✓ | ✓ | ✓ |
| 4 Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid | ✓ | ✓ | |
| 3 Awdurdod Tân ac Achub | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 9 Cronfa pensiwn | ✓ | | |
| Cyd-bwyllgorau Corfforedig | ✓ | ✓ | ✓ |
| Bargeinion dinesig a thwf rhanbarthol | ✓ | ✓ | |
| Nifer o gyrff llywodraeth leol llai gan gynnwys cydbwyllgorau ac awdurdodau harbwr | ✓ | | |
| Dros 730 o Gynghorau Tref a Chymuned | ✓[12] | | |

9 Nid yw'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol ym mhob corff llywodraeth ganolog. Ar hyn o bryd mae gwaith archwilio perfformiad a gynhaliwyd o fewn y sector hwn yn ei raglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol.

10 Dim ond ar gyfer cyrff rhestredig dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

11 Dim ond ar gyfer cyrff rhestredig dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

12 Ar sail sicrwydd cyfyngedig.

# 2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Mae’r rhaglen waith hon yn cynnwys archwiliadau gwerth am arian, astudiaethau llywodraeth leol, a pharatoi adroddiadau crynhoi canfyddiadau gwaith archwilio lleol ar draws nifer o gyrff y GIG, y llywodraeth ganolog a/neu lywodraeth leol.

Mae hefyd yn cynnwys archwiliadau a gynhaliwyd mewn ymateb i faterion o bryder cyhoeddus a nodwyd drwy ein gwaith archwilio neu a godwyd gyda’r Archwilydd Cyffredinol drwy ohebiaeth. Mae’r allbynnau o ran helaeth o’r rhaglen hon yn cefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd a phwyllgorau eraill y Senedd - gweler **Atodiad 3**.

Rydym yn adolygu ein cynlluniau yn rheolaidd, gan ystyried ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu’r cyrff a archwilir gennym i ymgysylltu â ni. Er enghraifft, er nad oedd hyn wedi’i gynnwys ar adeg ein Cynllun Blynyddol, rydym bellach yn bwriadu cyhoeddi adroddiad diweddaru ar brosiect ffordd Adran 2 yr A465 yn dilyn ein hadroddiad canfyddiadau interim ym mis Chwefror 2020. Rydym hefyd wedi cadarnhau’n ddiweddar ein bod yn bwriadu bwrw ymlaen ag ychydig o waith ar Ganolfan Ganser Felindre.

Yn ogystal â’r gwaith sy’n mynd rhagddo a restrir, gall allbynnau eraill hefyd ddeillio o waith yr ydym yn ei wneud mewn ymateb i faterion a godwyd gyda ni, o waith dilynol, neu o’n gweithgarwch ymchwil a datblygu ehangach.

| **Gwaith a gwblhawyd ar 30 Medi 2023** | |
|---|---|
| ’Gwneud y Mwyaf o Arian yr UE y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a’r Rhaglen Datblygu Gwledig | ‘Craciau yn y Sylfeini’ – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg – Gwaith Dilynol ar yr Adolygiad ar y Cyd o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd | Offeryn data cyllid GIG Cymru |
| Llamu Ymlaen: Gwersi o'n gwaith ar y gweithlu ac asedau | Dulliau o sicrhau sero net ledled y DU |
| Arallgyfeirio Incwm ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru | Adroddiad briffio ar ddata ynghylch Gweithlu’r GIG |

| Gwaith sy’n mynd rhagddo neu sydd i’w ddechrau yn ystod gweddill 2023-24 | |
|---|---|
| Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon – Dilyniant | Cyd-bwyllgorau Corfforedig |
| Tân ac achub – lleihau galwadau diangen | Llywodraethu ansawdd y GIG |
| Cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy – adfywio tir llwyd | Llywodraethu cyrff â diben arbennig - Parciau Cenedlaethol |
| Defnyddio gwybodaeth am berfformiad mewn llywodraeth leol | A465 Adran 2 - diweddariad |
| Gwasanaethau ar gyfer ffoaduriaid Wcreinaidd | Strategaeth ddigidol ym maes llywodraeth leol |
| Tai fforddiadwy | Llywodraethu awdurdodau â diben arbennig – Tân ac Achub |
| Teithio llesol | Gofal heb ei drefnu |
| Gweithlu’r GIG | Buddsoddiad cyfalaf a seilwaith Llywodraeth Cymru |
| Gwasanaethau canser | Canolfan Ganser Felindre |
| Mynd i’r afael â dirywiad mewn bioamrywiaeth | Cyllid a goruchwyliaeth addysg bellach ac uwch – Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil |
| Yr uwch wasanaeth cyhoeddus | Heriau i’r sector diwylliannol |
| Digartrefedd | Ailgydbwyso gofal a chymorth |
| Mynediad i addysg i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | Mynd i’r afael â rhestrau aros y GIG |
| Cynaliadwyedd ariannol mewn llywodraeth leol | Comisiynu a rheoli contractau mewn llywodraeth leol |

# 3 Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol

## Cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Phwyllgorau eraill y Senedd

Mae ein gwaith yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (PAPAC) wrth iddo ystyried defnyddio adnoddau wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cefnogwyd wyth cyfarfod PAPAC gan ganlyniadau ein gwaith, gan gynnwys sesiynau tystiolaeth ynghylch materion yn codi o'n gwaith ar Adfywio Canol a Gwneud y Mwyaf o Arian yr UE. Roedd ein hadroddiad ym mis Chwefror 2016 ar Sefydlu ac arolygu Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru hefyd yn sail i sesiwn dystiolaeth ym mis Medi yn edrych ar y sefyllfa ddiweddaraf yn dilyn datganiad gan Lywodraeth Cymru ynghylch cau'r Gronfa. Bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried rhywfaint o'r gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod adrodd a amlinellwyd yn **Atodiad 2**.

Roedd wyth cyfarfod PAPAC yn cynnwys un cyfarfod ar y cyd ym mis Mai gyda'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a oedd yn ystyried y gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, materion yn ymwneud â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a gwaith ymchwiliad y pwyllgorau cyn eu hadroddiad ar y cyd ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru ym mis Gorffennaf 2023.

Rydym wedi parhau i ymgysylltu â thimau clercio i bwyllgorau eraill y Senedd i drafod ein gwaith lle mae hyn o ddiddordeb i'r ddwy ochr ac i ymateb i ymgynghoriadau perthnasol. Roedd hyn yn cynnwys, er enghraifft, trafod ein cyflwyniad i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai fel rhan o'i ymchwiliad i wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd awdurdodau lleol. Roedd adroddiad y Pwyllgor yn tynnu ar wahanol rannau o'n tystiolaeth ysgrifenedig.

Yn gyffredinol, gwnaethom ymateb yn ffurfiol yn ystod y cyfnod i dri ymgynghoriad a lansiwyd gan y Senedd neu ei bwyllgorau.

## Cefnogi gwaith pwyllgorau archwilio a chraffu cyrff cyhoeddus

Drwy'r cyfnod adrodd interim, rydym wedi mynychu cyfarfodydd pwyllgorau archwilio a chraffu'r prif gyrff yr ydym yn eu harchwilio. Rydym yn parhau i ddarparu briffiau ac adroddiadau ar ein gwaith archwilio ynghyd â chymorth i gryfhau effeithiolrwydd llywodraethu.

## Cefnogi'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr lleol

Rydym yn derbyn gohebiaeth yn rheolaidd gan y cyhoedd, eu cynrychiolwyr etholedig lleol a chenedlaethol ac eraill sy'n codi pryderon posibl am stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cawsom 57 eitem o ohebiaeth a sicrhawyd ein bod yn ymateb i'r pryderon hynny mewn modd teg, cymesur a phroffesiynol. Yn ogystal, cysylltodd 8 unigolyn â ni rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2023 yn nodi eu bod yn dymuno gwneud datgeliad chwythu'r chwiban.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon